Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD IAU 23 MAI 2024 10.00 o'r gloch** | | **THURSDAY 23 MAY 2024 10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

# R H A G L E N

**1** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024.

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**5** **TREFNIADAETH YSGOLION - ADRODDIAD GWRTHWYNEBU A DOD I BENDERFYNIAD TERFYNOL AM YSGOL CARREGLEFN** (Tudalennau 19 - 82)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**6** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 83 - 84)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

**7** **CYTUNO AR Y TREFNIADAU AR GYFER SEFYDLU PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN** (Tudalennau 85 - 116)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (Ar gyfer eitem 8)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 13)<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol (GP) (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Rhaglen Corfforaethol (ATR) (ar gyfer eitem 7)<br>Prif Swyddog Eiddo ac Asedau (MH) (ar gyfer eitem 8)<br>Prif Swyddog Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 13)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Neville Evans, Mr Rhys H .Hughes (Dirprwy Brif Weithredwr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) Gwilym O. Jones (Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio) R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Swyddog Cyfathrebu (GJ), Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Sgriwtini (EA) (Goruchwylio). |

---

### 1. DATGAN BUDDIANT

Bu i'r Cynghorydd Nicola Roberts ddatgan buddiant personol yn unig yn ystod eitem 7 oherwydd ei swydd ran amser gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w adrodd.



DRAFT

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn i'w cadarnhau: -

- 20 Chwefror, 2024
- 29 Chwefror, 2024 (arbennig)

**Penderfynwyd bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith ar gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn gywir –**

- **20 Chwefror, 2024**
- **29 Chwefror, 2024 (arbennig)**

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Ebrill – Tachwedd 2024 i'w chadarnhau.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar y newidiadau i'r Flaenraglen Waith yn cynnwys symud yr eitem ar y Farchnad Dai Leol o gyfarfod mis Mawrth 2024 i gyfarfod mis Gorffennaf 2024 a chynnwys eitem ar berfformiad a monitro'r gyllideb yng nghyfarfod mis Tachwedd 2024. Cadarnhaodd y Pennaeth Democratiaeth bod Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2024/25 wrthi'n cael ei chwblhau.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod o Ebrill i Tachwedd 2024, fel y'i cyflwynir.**

## 5. MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer. Nododd mai dyma'r cerdyn sgorio mwyaf cadarnhaol ar gyfer Chwarter 3 ers i'r cerdyn sgorio gael ei gyflwyno fel arf ar gyfer mesur perfformiad. Mae 91% o'r holl ddangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'u targed neu o fewn 5% i'r targedau ar gyfer y chwarter. Amlygodd nifer o feysydd sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y chwarter megis y Gymraeg mewn ysgolion, NERS, nifer y cartrefi gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd, Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Digartrefedd, Rheoli Gwastraff, a'r Gwasanaeth Cynllunio. Mae angen gwaith pellach mewn perthynas ag ymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, rheoli cwynion, cyflawni'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r amser a gymerir i ail-osod eiddo gwag, ac mae'r meysydd hyn yn cael eu monitro a'u harchwilio gan y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol. Er bod y Cyngor yn dal i wynebu pwysau ariannol ac er y bydd rhaid mynd i'r afael â rhai pwysau ariannol yn ystod y flwyddyn nesaf, mae perfformiad y Cyngor o ran i reolaeth ariannol yn gadarnhaol a rhagwelir tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ac, os caiff ei wireddu, bydd yn cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor.

Bu i'r Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ategu sylwadau'r Aelod Portffolio gan ddweud bod y cerdyn sgorio'n adlewyrchu perfformiad cadarnhaol ledled y sefydliad ac er bod ambell faes y gellir ei wella, mae'r Cyngor yn ymdrechu'n barhaus i wella ei berfformiad.

Adroddodd y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y materion a godwyd gan y Pwyllgor wrth graffu ar y cerdyn sgorio ar gyfer Ch3 yn ystod y ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2024. Roedd y materion hyn yn cynnwys meysydd sy'n perfformio yn unol â'u targed ond lle mae'r tuedd ar i lawr, gwersi a ddysgwyd gan gwynion ac i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu defnyddio i wella'r broses ac ymarfer a'r amserlen ar gyfer

cyflwyno'r cerdyn sgorio newydd ar gyfer 2024/25 a'i chyswllt â Chynllun y Cyngor 2023-28. Ar ôl trafod y materion a derbyn sicrwydd gan Swyddogion ac Aelodau Portffolio ac ar ôl cydnabod y perfformiad cadarnhaol sy'n cael ei adlewyrchu yn y cerdyn sgorio ar gyfer Ch3, penderfynodd y Pwyllgor argymell yr adroddiad ar gerdyn sgorio Ch3 2023/24 a'r mesurau lliniaru yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod sicrhau'r llwyddiant a adlewyrchir yn y cerdyn sgorio ar gyfer Ch3 wedi golygu llawer iawn o waith caled a bu iddo longyfarch y Penaethiaid Gwasanaeth a'u rheolwyr a'u staff ar eu hymrwymiad. Er y bydd yn heriol cynnal ac adeiladu ar y canlyniadau cadarnhaol presennol, er mwyn parhau i ddatblygu a gwella rhaid i hyn fod yn ddyhead i'r Cyngor.

Bu i aelodau'r Pwyllgor Gwaith gydnabod canlyniadau'r cerdyn sgorio ar gyfer Ch3, sy'n amlygu perfformiad da ar draws y gwasanaethau a rhai meysydd rhagorol, a mynegi eu gwerthfawrogiad i'r staff am sicrhau canlyniadau mor gadarnhaol. Bu iddynt nodi bod y Cyngor wedi wynebu, a'i fod yn dal i wynebu, heriau allanol a'i fod yn ceisio rheoli'r rhain a bod gwasanaethau wedi gorfod dod o hyd i arbedion cyllidebol yn ystod y cyfnod hwn er mwyn datblygu'r gyllideb ar gyfer 20242/25, sy'n  golygu bod y perfformiad hwn hyd yn oed yn fwy canmoladwy. Cyfeiriodd y Cynghorydd Gary Pritchard,  yr aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai, at Ddangosydd Perfformiad Allweddol rhif 28 (yr amser cyfartalog a gymerir i gyflawni'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl) sydd wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ddiweddar. Roedd yn falch o gadarnhau bod y nifer o ddyddiau wedi gostwng erbyn hyn ac, er nad yw'r targed wedi cael ei gyflawni eto, mae'r gwelliant hwn yn dangos bod y mesurau lliniaru sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn cael effaith ac mae pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir.  Pwysleisiodd bod edrych ar dueddiadau'r un mor bwysig ag edrych ar dargedau a chyfeiriodd at y gwasanaeth Digartrefedd lle mae'r holl ddangosyddion yn perfformio'n dda ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn wynebu pwysau sylweddol ac mae hyn yn cael effaith ar un o'r dangosyddion. Bydd y dangosydd hwn y cael ei fonitro a'i adolygu.

**Penderfynwyd derbyn y cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer Ch3 2023/24 a nodi'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol ynghyd â'r mesurau lliniaru fel y nodir yn yr adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON YR YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH AR GYFER 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys adroddiad blynyddol a chyfrifon Stad Elusennol David Hughes ac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid, a roddodd drosolwg o gefndir Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn a'r tair cronfa, sef Cronfa Waddol David Hughes, Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3 sy'n darparu budd addysgol i bobl ifanc sydd yn, neu sydd wedi, mynychu ysgolion uwchradd yr Ynys. Cyfeiriodd at y cyllid a ddyrannwyd i ysgolion uwchradd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2019 a sut y cafodd y cyllid hwn ei ddefnyddio gan yr ysgolion yn ystod 2022/23 fel y nodir yn adran 5 a 6 yn yr adroddiad. Gan na chynhyrchodd Stad Elusennol David Hughes unrhyw warged yn 2022/23 nid oedd unrhyw gyllid ar gael i'w drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth y flwyddyn honno ac felly nid oedd unrhyw ddyraniad i'r ysgolion. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf a'i bod yn dal i fod yn addas i bwrpas.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod y cyfrifon ar gyfer 2022/23  yn dangos bod costau rhedeg y stad yn fwy na'r incwm rhent a gynhyrchir drwy fân-ddaliadau'r stad ac felly nid oedd incwm ar gael i'w ddosbarthu i Ymddiriedolaeth



DRAFT

Addysg Bellach Ynys Môn yn 2022/23. Mae'r stad, sy'n cynnwys mân-ddaliadau a buddsoddiadau eraill, werth oddeutu £4.88m. Er bod gwerth y stad wedi cynyddu nid yw incwm net y gronfa wedi cynyddu ac os ydi'r sefyllfa hon yn parhau bydd rhaid ystyried ffyrdd o gynhyrchu mwy o incwm fel y gellir parhau i ddosbarthu cyllid i'r Ymddiriedolaeth Addysg Bellach, neu mae risg y bydd yr Ymddiriedolaeth yn dod i ben yn ogystal â'r buddion i ysgolion uwchradd a disgyblion Ynys Môn.

Yn sgil y cyngor hwn ynglŷn ag incwm y stad, cynigodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud argymhelliad penodol a fyddai'n caniatáu i'r Swyddog Adran 151 ystyried yr opsiynau sydfd ar gael fel y gall Stad Ddiwydiannol David Hughes gynhyrchu mwy o incwm er mwyn diogelu hyfywedd yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach yn yr hirdymor er budd pobl ifanc Ynys Môn. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn derbyn adroddiad pellach ar yr opsiynau i benderfynu ar y ffordd ymlaen gan ystyried anghenion tenantiaid yn ogystal â phobl ifanc Ynys Môn.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2022/23 (Atodiad A yr adroddiad).**
- **Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yr awdurdod i lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Terfynol a'u ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennau ar ôl cwblhau'r archwiliad yn foddhaol.**
- **Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, yr awdurdod mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, i edrych ar opsiynau ar gyfer cynyddu incwm o Ystâd Elusennol David Hughes, er mwyn diogelu hyfywedd tymor hir Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn er budd pobl ifanc Ynys Môn. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn dewis yr opsiwn i'w ddilyn.**

## 7. CYNLLUN STRATEGOL TACLO TLODI 2024-29

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd y cynnwys y Cynllun Strategol Taclo Tlodi ar gyfer 2024 – 2029 i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd y Cynllun Strategol Taclo Tlodi gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gosod gweledigaeth a phrif feysydd blaenoriaeth y Cyngor i fynd i'r afael â thlodi ar Ynys Môn dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r angen ar gyfer y Cynllun Strategol Taclo Tlodi hwn wedi cael ei gydnabod fel blaenoriaeth, ac mae'n cael ei yrru gan Gynllun y Cyngor 2023-28 sy'n rhagweld Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddatblygu gan Swyddogion a rhanddeiliaid ac mae'n dibynnu ar eu cefnogaeth barhaus a chydweithrediad. Wrth ddatblygu'r Cynllun mae'r Cyngor wedi ystyried ei gyfyngiadau ariannol ac mae'n cydnabod bod rhaid iddo gyflawni mwy gyda llai. Mae'r dangosfwrdd costau byw sydd newydd gael ei lansio yn darparu data a gwybodaeth fel y gall y Cyngor wneud y penderfyniad cywir er mwyn mynd i'r afael â thlodi ar Ynys Môn yn ogystal â monitro cynnydd yn effeithiol.

Adroddodd y Cynghorydd Gwilym O. Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar yr hyn a drafododd y Pwyllgor wrth graffu ar y Cynllun Strategol Taclo Tlodi yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2024. Wrth drafod y Cynllun Strategol bu i'r Pwyllgor godi nifer o faterion yn ymwneud â'r diffiniad o dlodi a sut y penderfynwyd ar y diffiniad hwnnw, cynwysoldeb y broses ymgysylltu, y broses ar gyfer casglu gwybodaeth am dlodi ar yr Ynys ynghyd â'r trefniadau ar gyfer monitro'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau allweddol a gwerthuso llwyddiant y Cynllun. Bu i'r Pwyllgor gwestiynu a yw'r

chwe blaenoriaeth allweddol yn rhy uchelgeisiol yn yr hinsawdd bresennol ac wrth drafod tlodi ariannol gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynglŷn â pha mor hygyrch yw'r cyngor sydd ar gael ar fudd-daliadau a rheoli dyledion a hefyd y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i bobl leol yn enwedig mewn perthynas â chydlynu â chwmnïau sy'n gweithredu ar yr Ynys i greu prentisiaethau ar gyfer pobl ifanc. Wrth argymell y Cynllun strategol i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, roedd y Pwyllgor wedi cytuno ar gam gweithredu ychwanegol sef y byddai llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru ar ran yr Awdurdod a Grŵp Llandrillo Menai i fynegi eu pryder ynglŷn ag effaith y penderfyniad diwedar i leihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cynlluniau prentisiaeth yn y DU yn sylweddol. Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i'r Pwyllgor Sgriwtini am ei gyfraniad a chytunodd i gefnogi'r weithred ychwanegol a gynigiwyd ganddo.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n bwysig deall bod tlodi yn golygu lawer iawn mwy na diffyg arian a'i fod yn cynnwys y profiadau a chyfleodd sydd ar gael i bobl, yn enwedig pobl ifanc, a sut y gall diffyg cyfleoedd effeithio ar eu bywydau a'u cyfleodd bywyd ac mae hyn yn ychwanegu at faint y dasg o fynd i'r afael â thlodi yn enwedig pan fo'r argyfwng costau byw wedi gwneud pethau'n anoddach i blant a theuluoedd.

Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r Cynllun Strategol fel cynllun hynod bwysig i geisio lliniaru effaith tlodi a all fod y bellgyrhaeddol ac a all gynnwys nifer o elfennau megis diffyg trafnidiaeth gyhoeddus a diffyg mynediad at wasanaethau yn ogystal â thlodi mewn gwaith o ganlyniad i incwm isel a chostau tai uwch oherwydd rhenti preifat. Nododd yr aelodau bod yr ystadegau mewn perthynas â thlodi ar Ynys Môn yn heriol, ac roeddent yn cydnabod er na all y Cyngor roi diwedd ar dlodi ar yr Ynys, fe all, drwy weithio â phartneriaid a thrwy ganolbwyntio ar y chwe blaenoriaeth yn y Cynllun, fynd i'r afael ag effaith tlodi a helpu pobl i wella eu sefyllfa. Roedd yr aelodau'n cydnabod bod nifer o bobl yn gyndyn o gyfaddef eu bod mewn caledi a'i bod yn bwysig felly codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael ledled Ynys Môn a sut y gall pobl gymryd mantais ohono.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi drafft ar gyfer 2024-29.**
- **Cefnogi'r argymhelliad gan Sgriwtini bod llythyr ar y cyd ar ran yr Awdurdod hwn a Grŵp Llandrillo Menai yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru a San Steffan i fynegi pryder ynghylch effeithiau penderfyniadau diweddar i leihau'r cyllid yn sylweddol ar gyfer cynlluniau prentisiaethau yn y DU.**

## 8. CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL 2024-29

Cyflwynwyd adroddiad y pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a oedd yn cynnwys y Cynllun Strategol Rheoli Asedau Corfforaethol 2024-29 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd y Cynllun Strategol gan y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fel dogfen lefel uchel sy'n gosod y cyfeiriad strategol a'r egwyddorion a fydd yn arwain penderfyniadau a phrosesau'r Cyngor mewn perthynas â rheoli ei asedau hyd at 2029. Cyfeiriodd at y cyfyngiadau cyllidebol a fydd yn ei gwneud hi'n anoddach i'r Cyngor gynnal a chadw ei holl asedau i'r lefel y mae'n ei ddymuno, sy'n golygu y bydd yn rhaid iddo adolygu ei bortffolio i sicrhau bod ei asedau'n ddiogel, hygyrch ac addas i bwrpas. Mae'r gwaith o gasglu a phrosesu gwybodaeth am bortffolio asedau'r Cyngor yn hanfodol bwysig er mwyn darparu tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau. Mae'r gwaith yma eisoes ar y gweill.

Adroddodd y Pennaeth Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo mai pwrpas y cynllun Strategol yw sicrhau bod gan y Cyngor bortffolio asedau sy'n gynaliadwy yn ariannol ac amgylcheddol, sydd wedi'i resymoli i fod yn addas i bwrpas ac sy'n ddiogel er mwyn darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau bod asedau'r Cyngor yn cefnogi a helpu i gyflawni'r blaenoriaethau strategol yn unol â Chynllun y Cyngor. Mae gan y Cynllun Strategol Rheoli



DRAFT

Asedau Corfforaethol gyswllt agos â'r Strategaeth Gyfalaf, sy'n nodi'r egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio i arwain blaenoriaethau cyfalaf a dyrannu adnoddau cyfalaf ledled gwasanaethau'r Cyngor. Mae gan y Cyngor bortffolio o asedau amrywiol ond nid yw'r portffolio hwn yn cynnwys eiddo a gedwir o dan y Cyfrif Refeniw Tai na'r seilwaith priffyrdd. Bydd y Cynllun Strategol yn cael ei arwain gan y Gwasanaeth Eiddo mewn cydweithrediad agos â gwasanaethau eraill y Cyngor sydd gan asedau megis ysgolion, canolfannau hamdden a chartrefi preswyl. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y bydd gwell rheolaeth o asedau'r Cyngor yn darparu gwell asedau, yn y lleoliadau cywir, gan yrru effeithlonrwydd a rhesymoli a chefnogi'r Cyngor ar ei siwrnai tuag at ddod yn gyngor sero net yn ogystal.

Aeth y Prif Swyddog Eiddo ac Asedau ymlaen i sôn am y pedwar maes blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Strategol yn gysylltiedig â sicrhau bod asedau'n addas, cynaliadwyedd asedau, rheoli asedau ar y cyd fel adnodd corfforaethol a defnyddio data i gynllunio a gwneud penderfyniadau. Cyfeiriodd at bwysigrwydd cael gwybodaeth gywir a diweddar ynglŷn ag asedau'r Cyngor fel y gellir gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn pan fydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin.

Adroddodd y cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y hyn yr oedd y Pwyllgor wedi'i drafod wrth ystyried y Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2024. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor yn cynnwys sut fydd y Cynllun yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol, fforddiadwyedd y Cynllun yn yr hinsawdd ariannol bresennol a'r trefniadau ar gyfer monitro cynnydd a mesur llwyddiant. Bu i'r Pwyllgor hefyd holi a fyddai'n briodol cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y Cynllun Strategol ynglyn â gwerth pob ased, y gwaith cynnal a chadw sy'n aros i gael ei gwblhau a chost y gwaith cynnal a chadw arfaethedig. Ar ôl ystyried ymatebion y Swyddogion penderfynodd y Pwyllgor argymell y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29 i'r Pwyllgor Gwaith i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

Bu i'r Pwyllgor Gwaith nodi bod portffolio asedau'r Cyngor yn cynnwys nifer o asedau hanesyddol a bod y cyfalaf sydd ei angen i foderneiddio ac uwchraddio'r asedau hyn ac i gyflawni ei amcanion strategol yn fwy na £300m dros y 5 mlynedd nesaf. Oherwydd hyn bu i'r Aelodau gydnabod, gan fod adnoddau cyfalaf y Cyngor yn brin a chan ei fod yn dal i wynebu pwysau cyllidebol, y bydd rhaid iddo ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli ei asedau ac y bydd yn rhaid iddo wneud penderfyniadau radical yn cynnwys rhesymoli'r portffolio, addasu adeiladau lle bo modd a chwilio am gyfleoedd i gyd-leoli gwasanaethau gan gofio'i ymrwymiad i wireddu ei Gynllun Ddatgarboneiddio a Sero Net yn ogystal.

**Penderfynwyd argymell y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor llawn.**

## 9. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2024-2054

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn cynnwys Cynllun Busnes y CRT 2024 – 2054 i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd Cynllun Busnes y CRT gan y Cynghorydd Gary Pritchard, yr Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses o sicrhau Lwfans Atgyweiriadau Mawr y Cyngor, sydd oddeutu £2.7m ar gyfer 2024-25. Mae'r Cynllun yn cyfrannu tuag at yr holl themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ond mae'n cyfrannu'n bennaf at sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref, gofal cymdeithasol a llesiant yn ogystal â datblygu'r economi. Mae'r Cynllun yn cyfeirio at Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023 gan Lywodraeth

Cymru ac mae'n cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i gyrraedd y safonau newydd ar ôl llwyddo i fodloni'r safonau gwreiddiol yn ôl yn 2012, yr ail Gyngor yng Nghymru i wneud hynny.

Bu i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai gadarnhau y bydd y ffocws eleni ar gynllunio'r dull o gyflawni'r Safonau newydd. Cwblhawyd arolwg o gyflwr stoc dai'r Cyngor yn ystod 2023/24 a chafwyd mynediad i 88% o'r eiddo er mwyn sefydlu gwaelodlin i baratoi ar gyfer y safonau newydd. Bydd gwaith hefyd yn cael ei gwblhau i greu Llwybrau Ynni fel bod tai cymdeithasol y Cyngor yn defnyddio ynni yn fwy effeithlon. Mae'r galw am dai cymdeithasol yn uwch nag erioed ac mae 704 o bobl ar y rhestr aros. Er bod gan y Cyngor 3,981 o unedau tai ar hyn o bryd mae wedi ymrwymo i gynyddu ei stoc dai i ymateb i'r her dai leol ac i gwrdd â'r galw. Mae £17m wedi cael ei neilltuo yng nghyllideb 2024/25 i ddatblygu tai cymdeithasol newydd a phrynu hen dai cyngor yn ôl ynghyd â £13m ar gyfer y rhaglen cynnal a chadw, £1m ar gyfer gwaith datgarboneiddio a £5.7m ar gyfer gwaith atgyweirio heb ei gynllunio. Rhagwelir incwm o £23m drwy renti.

Bu i'r Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol grynhoi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor wrth iddo graffu ar Gynllun Busnes y CRT yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2024 sef fforddiadwyedd y Cynllun, yr heriau o ran cyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023, canarn y tai Cyngor sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif a'r rhesymeg y tu ôl i amserlen 30 mlynedd y Cynllun. Ar ôl ystyried y materion hyn a'r ymatebion penderfynodd y Pwyllgor argymell Cynllun Busnes y CRT 2024-2054 i'r Pwyllgor Gwaith.

Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor o ran cwrdd â'r galw cynyddol am dai ar yr Ynys a gofynion safonau ansawdd tai Cymru 2023 ac roeddent yn gwerthfawrogi gwaith y Gwasanaethau Tai a'u hymrwymiad parhaus i barhau i wella'r cartrefi a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ledled Ynys Môn yn ogystal â buddsoddi mewn tai cymdeithasol newydd ar yr Ynys.

**Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2024-2054.**

## 10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyriwyd a phenderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A o'r Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni.**

## 11. RHAGLEN AMLINELLOL STRATEGOL – RHAGLEN DREIGL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a oedd yn cynnwys y Rhaglen Amlinellol Strategol - Rhaglen Dreigl i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith cyn iddi gael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r Rhaglen Amlinellol Strategol gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith cyn iddynt gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cam nesaf y seilwaith ariannu strategol ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, (sef y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif gynt). Ym mis Tachwedd 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gwneud i ffwrdd â'r rhaglen fandio ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion a cholegau ac y byddai'n symud tuag at ddefnyddio Rhaglen Amlinellol Strategol dros gyfnod o 9 mlynedd. Dan y trefniadau hyn, rhaid cyflwyno rhaglen gyfalaf 9 mlynedd, yn cynnwys rhagolygon ariannol ar gyfer y 9 mlynedd i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru er mwyn derbyn ymrwymiad a chymorth ar gyfer y 3 blynedd gyntaf a chymorth mewn egwyddor ar gyfer blynyddoedd 4, 5 a 6. Bydd blynyddoedd 7 i 9 yn adlewyrchu'r prosiectau hirdymor sydd gan yr Awdurdod mewn golwg. Mae'r Rhaglen yn nodi ffocws rhaglen dreigl 9 mlynedd yr Awdurdod hwn a



DRAFT

manylion y cynlluniau arfaethedig a fydd yn cael eu hariannu yn ystod cyfnod y rhaglen ynghyd â'r costau arfaethedig a goblygiadau cyllidebol.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol – Rhaglen Dreigl (SOP)**
- **Awdurdodi Swyddogion i gyflwyno'r Rhaglen Amlinellol Strategol – Rhaglen Dreigl 9 mlynedd (RhAS / SOP) terfynol i swyddogion Llywodraeth Cymru cyn y terfyn amser sef 31 Mawrth 2024.**
- **Bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio – Addysg a'r Gymraeg, y Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Cyllid, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro, i newid yr RhAS os oes angen – os nad yw'r newidiadau'n arwain at newidiadau sylweddol o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd parti.**

## 12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyriwyd a phenderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A o'r Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni.**

## 13. PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN – TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn gosod y trefniadau llywodraethu ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd. Fel yr adroddwyd mewn adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2023, mae swyddogion y Cyngor a'i ymgynghorwyr wedi bod yn gweithio i ddod i gytundeb ynglyn â'r ffurf gorau ar gyfer yr endid cyfreithiol er mwyn caniatáu i'r Porthladd Rhydd gyflawni ei gyfrifoldebau i'r ddwy Lywodraeth a sicrhau fod risgiau ac atebolrwydd yn cael eu trosglwyddo a'u rheoli'n briodol. Yn seiliedig ar y cyngor a dderbyniwyd ac yn unol â chytundeb Stena Line, yr opsiwn a ffefrir yw bod y Cyngor yn sefydlu Cwmni Cyfyngedig drwy Warant i weithredu fel endid cyfreithiol ar gyfer y Porthladd Rhydd. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ystyriaethau llywodraethu yn gysylltiedig â'r dull hwn ynghyd â'r camau nesaf.

**Penderfynwyd –**

- **Rhoi sêl bendith i'r Cyngor greu Cwmni Cyfyngedig drwy Warant i weithredu fel endid cyfreithiol ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, i gytuno ar Erthyglau'r Cwmni a'i Gytundeb Aelodau.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, i barhau i drafod gyda rhanddeiliaid allweddol a, lle bo'n briodol, gwahodd y cyfryw randdeiliaid i fod yn aelodau o Gwmni Porthladd Rhydd Ynys Môn.**

DRAFT

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 23 Mai 2024 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mehefin 2024 – Ionawr 2025;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a’r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mehefin 2024 – Ionawr 2025 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Tudalen 14

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyngor Sir Ynys Môn

### Cyfnod: Mehefin 2024 – Ionawr 2025

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 15 Mai 2024

Mehefin 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad dirprwyiedig: Mehefin 2024 | Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/24 | Cyng Dafydd Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>19 Mehefin 2024 |
| Cyfarfod 25 Mehefin 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2023/24 | Cyng Carwyn E Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>13 Mehefin 2024 |
| | Hunan Asesiad Corfforaethol 2024 (drafft) | Cyng Carwyn E Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>13 Mehefin 2024 |
| | Dogfen Gyflawni Blynyddol 2024/25 | Cyng Carwyn E Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>13 Mehefin 2024 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2023/24 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>6 Mehefin 2024 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2023/24 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>6 Mehefin 2024 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2023/24 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>6 Mehefin 2024 |
| | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau | Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>19 Mehefin 2024 |
| | Cyflwr economaidd-gymdeithasol gogledd Ynys Môn a'r achos dros fuddsoddi a chymorth | Cyng Llinos Medi | |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Dyddiadau i'w cadarnhau | Cynllun Strategol Caffael | Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini – dyddiad i'w gadarnhau |
| Dyddiadau i'w cadarnhau | Cynllun Rheoli Ystad Mân-ddaliadau 2024-2034 | Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>19 Mehefin 2024 |

## Gorffennaf 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 16 Gorffennaf 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |
| | Hunan Asesiad Corfforaethol 2024 | Cyng Carwyn E Jones | |

Tudalen 16

## Medi 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 24 Medi 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Carwyn E Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>12 Medi 2024 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11 Medi 2024 |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11 Medi 2024 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11 Medi 2024 |
| | Asesiad y Farchnad Dai Leol | Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>12 Medi 2024 |

## Hydref 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 22 Hydref 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |



## Tachwedd 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 26 Tachwedd 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Carwyn E Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>14 Tachwedd 2024 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>5 Tachwedd 2024 |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>5 Tachwedd 2024 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>5 Tachwedd 2024 |

## Rhagfyr 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 10 Rhagfyr 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |
| | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Cyng Carwyn E Jones | |



## Ionawr 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 21 Ionawr 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 23 Mai 2024 |
| Pwnc: | ADRODDIAD GWRTHWYNEBU – TREFNIADAETH YSGOLION<br><br>Cynnig i:<br>“Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”. |
| Aelod Portffolio: | Y Cynghorydd Dafydd Roberts<br>Aelod Portffolio Addysg a’r Gymraeg |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Marc B Hughes<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Arwyn Hughes<br>ArwynHughes3@ynysmon.gov.wales<br>Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) |
| Aelodau Lleol: | Y Cynghorydd Jackie Lewis<br>Y Cynghorydd Llinos Medi<br>Y Cynghorydd Llio Angharad Owen |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**Argymhelliad**

1. **“Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn” o 31 Awst 2024.**
2. **Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi rhybudd o’r penderfyniad terfynol ar ffurf llythyr penderfyniad (yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018).**
3. **I ymestyn dalgylch Ysgol Llanfechell i ymgorffori dalgylch presennol Ysgol Carreglefn**

**Rhesymau**

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cyhoeddodd y Cyngor Hysbysiad Statudol ar **1 Mawrth 2024** i nodi ei fwriad i **gau Ysgol Carreglefn**.

Cyhoeddwyd y rhybudd statudol ar 1 Mawrth 2024, ac roedd gan rhanddeiliaid tan 5pm ar 2 Ebrill 2024 i wrthwynebu. Roedd y cyfnod gwrthwynebu ychydig yn hirach na’r gofyniad statudol o 28 diwrnod, i sicrhau nad oedd y cyfnod gwrthwynebu’n cau ar wyliau banc.

**Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniwyd 8 gwrthwynebiad.**

Yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae’n rhaid i’r cynigydd neu’r cynigwyr, sef Cyngor Sir Ynys Môn yn yr achos hwn, gyhoeddi adroddiad yn disgrifio’r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb y cynigwyr i’r gwrthwynebiadau hynny h.y. adroddiad gwrthwynebu. Mae’r adroddiad gwrthwynebu wedi’i gynnwys yn **Atodiad 1**.


**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol "benderfynu a ddylid cymeradwyo cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo gydag addasiadau".

**Cefndir**

Mae'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carreglefn yn cael eu rhestru isod.

- Ysgol Carreglefn sydd â'r gost fesul disgybl uchaf o blith holl ysgolion cynradd Cymru, sef £17,200 y disgybl. Mae hyn fwy na theirgwaith yn uwch na'r gost gyfartalog fesul disgybl ar gyfer Ynys Môn, sef £5,240.
- Mae gan Ysgol Carreglefn 80% o leoedd gwag, a dim ond 9 disgybl sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, gyda 4 ohonynt ym mlwyddyn 6.
- Yn ôl rhagolygon yr ysgol, bydd 5 neu lai o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol o fis Medi 2024 ymlaen.
- Mae Ysgol Carreglefn wedi cael anhawster i benodi pennaeth ac mae'n rhannu pennaeth gydag ysgol arall ar hyn o bryd. Nid yw'r pennaeth ond ar safle'r ysgol am ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae'r dirprwy'n arwain yr ysgol yn ystod y 3 diwrnod arall.
- Ysgol Carreglefn sydd â'r allyriadau carbon ail uchaf fesul disgybl o blith holl ysgolion cynradd Ynys Môn, sef 1,167kgCO2e y disgybl ac mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd o 217kgCO2e y disgybl.
- Mae costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol Ysgol Carreglefn yn £317,350.
- Mae holl ddisgyblion Ysgol Carreglefn yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth ac mae disgyblion rhwng 4 a 11 oed yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd. Gall hyn fod yn heriol o ran cwrdd ag anghenion disgyblion o wahanol oedran.

Mae opsiynau amgen rhesymol wedi cael eu hystyried ar gyfer Ysgol Carreglefn a'u dadansoddi yn erbyn y gyrwyr allweddol. Mae'r holl opsiynau amgen rhesymol hefyd wedi cael eu hasesu o ran yr effaith debygol ar safonau, y gymuned a threfniadau teithio disgyblion, gan fod Ysgol Carreglefn wedi'i rhestru fel ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Ar ôl ystyried yr opsiynau amgen rhesymol, cyflwynodd y Cyngor y cynnig canlynol ar gyfer dyfodol Ysgol Carreglefn:

**"Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn"**

O'i wireddu, byddai disgwyl i'r buddiannau canlynol ddeillio o'r cynnig:

- Byddai modd dileu lleoedd gwag yn Ysgol Carreglefn a byddai'n bosib lleihau lleoedd gwag yn Ysgol Llanfechell.
- Gallai'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ymhlith holl ysgolion Ynys Môn ostwng yn sylweddol.
- Gallai'r gost fesul disgybl yn Ysgol Llanfechell ostwng, ac amcangyfrifir ei fod yn agos iawn at y cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd ar Ynys Môn.
- Amcangyfrifir y bydd cynnig yn creu arbedion refeniw o £126k y flwyddyn.
- Byddai disgwyl i allyriadau carbon ddisgyn gan 12.6tCO2e.
- Gellid dyrannu canran uwch o'r Gyllideb Ddatganoledig Ysgolion ar addysgu, a dyrannu llai o adnoddau tuag at gynnal a rhedeg adeiladau.
- Gellid sicrhau gostyngiad o £317,350 mewn costau Cynnal a Chadw Cyfredol a Rhagamcannol. Gallai olygu bod llai o adeiladau i'r awdurdod eu cynnal yn y dyfodol a gallai hynny gyfrannu at reoli'r ystâd ysgolion yn well, ar lefel strategol, yn y dyfodol.

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau: |
| --- |
| Gan fod llai na 10 o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Carreglefn pan gynhaliwyd y Cyfrifiad ym mis Ionawr 2024, mae'r cod trefniadaeth ysgolion yn caniatáu i awdurdodau lleol ddilyn proses symlach i gau ysgol yn swyddogol. Yr unig beth sydd rhaid ei wneud yw cyhoeddi rhybudd cau – mae'r gofyn i gynnal ymgynghoriad cyffredinol yn cael ei hepgor.<br><br>Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2024:<br>"Penderfynwyd:<br>• Cymeradwyo'r cynnig i "drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn."<br>• Awdurdodi Swyddogion i symud i ran nesaf y broses sy'n cael ei nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), sef cyhoeddi Rhybudd Statudol am gyfnod o 28 diwrnod (pan fydd y Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi, bydd gan randdeiliaid 28 diwrnod i gyflwyno gwrthwynebiad statudol i'r cynnig).<br>• Awdurdodi Swyddogion i ymateb i unrhyw wrthwynebiadau statudol (os oes gwrthwynebiadau) gan lunio Adroddiad Gwrthwynebu i bwrpas ystyriaeth bellach gan y Pwyllgor Gwaith.<br>• Caniatáu Swyddogion i gynnal trafodaeth gyda'r gymuned a rhoi cyfle i sicrhau dyfodol hirdymor adeilad presennol yr ysgol fel adnodd cymunedol pe bai angen."<br><br>Fel y nodir uchod, mae'r Hysbysiad Statudol wedi cael ei gyhoeddi ac mae cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod wedi dod i ben. Cyflwynir yr adroddiad hwn (h.y. yr adroddiad gwrthwynebu) i'r Pwyllgor Gwaith i ganiatáu iddo ystyried y gwrthwynebiadau, yn ogystal ag ymateb y cynigwyr iddynt, cyn gwneud ei benderfyniad terfynol. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| Ystyriwyd nifer o opsiynau fel rhan o'r Papur Cynnig.<br><br>Mae'r Papur Cynnig yn nodi 4 opsiwn amgen rhesymol, heblaw am gau'r ysgol, ac maent wedi cael eu hystyried yn fanwl. Maent yn cynnwys:<br>1. Y cynnig – Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn.<br>2. Un ysgol aml-safle (2 safle – safle presennol Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell).<br>3. Ffedereiddio Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell.<br>4. Adolygu'r ysgol a'r ddarpariaeth gwasanaeth yn Ysgol Carreglefn, gan edrych ar enghreifftiau megis:<br>- Clystyru, cydweithio rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell, h.y. dod ag ysgolion ynghyd i wneud gwell defnydd o adnoddau, cyfuno arbenigedd a chaniatáu ysgolion i edrych ar ffyrdd o weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br>- Defnyddio'r ysgolion fel hybiau cymunedol i gynnal/cefnogi gwasanaethau cymunedol, e.e. iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, hamdden, gweithgareddau cymdeithasol.<br>- Cyd-leoli gwasanaethau lleol o fewn ysgolion.<br><br>Mae'r Papur Cynnig yn amlinellu cyfleoedd a heriau'r holl opsiynau amgen rhesymol hyn.<br><br>Ystyriwyd chwe opsiwn arall hefyd, ond nid oeddent yn cael eu hystyried fel rhai rhesymol. Roedd y rhesymau dros hynny'n cael eu nodi yn y Papur Cynnig.<br><br>Gan fod y cynnig hwn yn ymwneud â'r posibilrwydd o gau ysgol wledig (sef Ysgol Carreglefn), mae'r Cyngor wedi dilyn gweithdrefnau a gofynion mwy manwl wrth lunio'r |


**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

cynnig hwn i gau ysgol wledig. Gwnaethpwyd hyn trwy asesu effaith y cynnig a phob opsiwn amgen rhesymol ar:

- Ansawdd a safonau addysg
- Y gymuned
- Trefniadau teithio ar gyfer disgyblion

Ym marn Swyddogion y Cyngor, y cynnig i "drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn", yw'r opsiwn gorau er mwyn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carreglefn.

Os yw'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i:

- Weithio gyda'r gymuned yng Ngharreglefn i edrych ar ddarparu cyfle i sicrhau dyfodol hir dymor adeilad yr ysgol bresennol fel adnodd cymunedol os bydd angen.
- Darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell, yn unol â pholisi cludiant ysgolion y Cyngor, gan nad yw'r llwybr rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o'r oedran dan sylw ei ddefnyddio i gerdded i'r ysgol ac yn ôl adref.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi – Mae'n gyson â'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a'r Gymraeg a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2023. Bydd hefyd yn cyfrannu at y 'Cynllun Tuag at Sero Net: 2022-2025'.

## D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Nid oes unrhyw gostau cyfalaf yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.

Mae disgwyl i'r cynnig gynhyrchu arbedion refeniw o thua £126k y flwyddyn trwy'r fformiwla datganoli cyllid i ysgolion.

Mae rhywfaint o gostau pontio'n bosib yn y tymor byr, ac maent yn cael eu hamcangyfrif fel a ganlyn:
2024/25 - £35,000
2025/26 - £4,000
2026/27 - £4,000
2027/28 - £4,000



**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r cynnig yn debygol o gynyddu niferoedd disgyblion yn Ysgol Llanfechell a gallai olygu bod yr ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol. Gallai hyn wneud yr ysgol yn fwy cynaliadwy a gwydn yn y tymor hir. Mae niferoedd disgyblion wedi gostwng yn Ysgol Carreglefn. Byddai hyn yn lleihau cyllideb yr ysgol gan olygu ei bod yn fwy heriol i'r ysgol osod cyllideb gytbwys. Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu at wella rheolaeth strategol yr ystâd ysgolion. Gan y gallai llai o ysgolion fod angen eu cynnal a'u cadw, mae'n bosib y byddai mwy o gyllideb ar gael i gynnal yr ysgolion fydd yn parhau ar agor, gan olygu eu bod yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir. |
| 2 | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Bydd y cynnig yn cynorthwyo i sicrhau dyfodol addysg yn yr ardal trwy wella cynaliadwyedd a gwytnwch.<br><br>Bydd y cynnig yn creu arbedion refeniw gwerth tua £126k y flwyddyn.<br><br>Bydd y cynnig yn gostwng costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yr ysgol gan £317,350. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, dywedwch pwy. | Mae cydweithio a gwybodaeth a dderbyniwyd gan Estyn, GwE a chynghorau cymuned wedi ffurfio rhan o'r cynnig hwn.<br><br>Hysbyswyd y rhanddeiliaid canlynol pan gyhoeddwyd y Rhybudd Statudol:<br>• Rhieni<br>• Cyrff llywodraethu Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell<br>• Staff Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell<br>• Aelodau Lleol Etholedig<br>• Aelod Seneddol Lleol<br>• Aelod Lleol o'r Senedd<br>• Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd<br>• GwE<br>• Estyn<br>• Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Comisiynydd yr Iaith Gymraeg<br>• Awdurdod lleol cyfagos |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | | • Cynghorau cymuned lleol<br>• Undebau athrawon yn cynrychioli Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell<br>• Cylch Meithrin Llanfechell<br>• Cyngor Sir Ynys Môn – uwch swyddogion<br>• Cyngor Sir Ynys Môn – Prif Swyddog Ieuenctid<br>• Partïon â diddordeb eraill<br><br>Roedd cyfle i bob un o'r uchod (yn ogystal ag unrhyw randdeiliaid eraill) gyflwyno gwrthwynebiad statudol.<br><br>Derbyniwyd 8 gwrthwynebiad, gan ddisgyblion Ysgol Carreglefn a Chorff Llywodraethu Ysgol Carreglefn. Mae'r Cyngor wedi ystyried y gwrthwynebiadau ac mae ei ymateb i'r gwrthwynebiadau statudol yn cael ei nodi yn yr adroddiad gwrthwynebu (Atodiad 1). |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi cyfrannu at ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny a gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut. | Fel yr uchod. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler Atodiad 1 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymuned a'r Gymraeg |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n wynebu anfantais gymdeithasol-economaidd. | Mae Ysgol Carreglefn yn cael ei dynodi'n ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Gallai'r cynnig, felly, gael mwy o effaith ar unigolion oherwydd amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.<br><br>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru'r risg hwn trwy weithio gyda'r gymuned yng Ngharreglefn i edrych ar y posibilrwydd o ddarparu cyfle i sicrhau dyfodol hirdymor adeilad Ysgol Carreglefn fel adnodd i'r gymuned os bydd angen. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Gweler Atodiad 1 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymuned a'r Gymraeg. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Sylwadau wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Ymdrinnir ag unrhyw faterion adnoddau dynol a all godi yn sgil yr argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori cydnabyddedig ac unrhyw brosesau Adnoddau Dynol eraill. |
| 5 | Eiddo | Sylwadau wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Nid yw'n berthnasol i'w cynnig hwn. |
| 7 | Caffael | Nid oes unrhyw gynigion caffael yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. |
| 8 | Sgriwtini | Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi trafod y cynnig ar 13 Chwefror 2024 a chyflwynwyd eu sylwadau ar lafar i'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2024. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F – Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1: Adroddiad Gwrthwynebu<br><br>Atodiad 2: Asesiad Effaith |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018<br>Papur Cynnig |

**ATODIAD 1**

# TREFNIADAETH YSGOLION

## ADRODDIAD GWRTHWYNEBU AR Y CYNNIG I:

**"Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn".**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

**Mae copïau papur o'r adroddiad hwn ar gael trwy anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru**

## CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cefndir | 3 |
| 2 | Rhybudd Statudol | 3 |
| 3 | Gwrthwynebiadau | 3 |
| 4 | Gwybodaeth Bellach | 12 |

**Cau Ysgol Carreglefn – Adroddiad Gwrthwynebu**

## 1. Cefndir

Cyflwynwyd y cynnig i drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror 2024. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror 2024 penderfynwyd awdurdodi Swyddogion i symud i ran nesaf y broses sy'n cael ei nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a chyhoeddi Rhybudd Statudol am gyfnod o 28 diwrnod (pan fydd Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi bydd gan rhanddeiliaid 28 diwrnod i gyflwyno gwrthwynebiad statudol i'r cynnig).

## 2. Rhybudd Statudol

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cyhoeddodd yr Awdurdod **Rybudd Statudol** o'i fwriad i:

> **Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn**

Cyhoeddwyd y **Rhybudd Statudol** ar 1 Mawrth 2024 a dilynwyd hynny gan gyfnod i wrthwynebu'r cynnig. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 2 Ebrill 2024. **Derbyniwyd 8 gwrthwynebiad i'r cynnig**.

Cyhoeddwyd y rhybudd ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn a'i arddangos ger prif fynedfeydd yr ysgol. Rhoddwyd copïau o'r rhybudd i'r ysgol er mwyn eu rhannu gyda disgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, llywodraethwyr a staff. Derbyniodd yr holl sefydliadau ac ymgyngoreion a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 naill ai gopi papur, neu e-bost yn cynnwys dolen i'r rhybudd a gyhoeddwyd ar wefan y cyngor. Roedd pawb a dderbyniodd e-bost wedi derbyn dolen i'r rhybudd ar y wefan.

Pan dderbynnir gwrthwynebiad i'r rhybudd statudol mae'n rhaid cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu sy'n crynhoi'r holl wrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny.

## 3. Gwrthwynebiadau

### Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau

Derbyniodd y Cyngor 8 ymateb yn gwrthwynebu'r cynnig. Roedd 7 o'r ymatebion gan ddisgyblion Ysgol Carreglefn. Derbyniwyd yr ymatebion hyn mewn e-bost gan aelod o staff ar ran y disgyblion. Roedd yr e-bost yn cynnwys 7 llythyr unigol, a phob un wedi'i lofnodi gan y disgyblion. Derbyniwyd y gwrthwynebiad arall gan Gorff Llywodraethu Ysgol Carreglefn. Roedd nifer o'r ymatebion yn cynnwys mwy nag un rheswm dros wrthwynebu. Mae'r rhesymau hyn dros wrthwynebu'n cael eu categoreiddio yn y tabl isod ac mae'r math o sylw a wnaed yn cael ei nodi.

Yn unol ag adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n rhaid i gynigwyr, sef Cyngor Sir Ynys Môn yn yr achos hwn, gyhoeddi ac ymateb i grynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ("yr adroddiad gwrthwynebu") – sef y ddogfen hon.

**Mae’r tabl isod yn cynnwys crynodeb o’r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor iddynt.**

**Crynodeb o Wrthwynebiadau i'r Rhybudd Statudol – Ysgol Carreglefn**

***Tabl 1***

| | **Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau** | **Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau** |
|---|---|---|
| **1.** | Perthynas ag eraill yn Ysgol Carreglefn **(7 ymateb) :**<br>• Mae pawb yn yr ysgol yn gwneud gweithgareddau gyda'i gilydd.<br>• Mae pawb yn yr ysgol yn adnabod ac yn ymddiried yn ei gilydd<br>• Ofn colli ffrindiau a staff wrth symud i ysgol arall, ofn bod ar eu pen eu hunain.<br>• Mae safbwyntiau pawb yn cael eu clywed<br>• Mae athrawon yn darparu cymorth pan fydd angen | Mae'n amlwg o adborth y disgyblion, ac o'r sesiwn a gynhaliwyd gyda disgyblion Ysgol Carreglefn yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, bod awyrgylch da yn Ysgol Carreglefn ac mae'r holl ddisgyblion yn adnabod ei gilydd yn dda, yn dod ymlaen yn dda ac yn ymddiried yn ei gilydd. Mae'r holl ddisgyblion yn Ysgol Carreglefn yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth, ac mae holl ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei bod yn ddigon posib fod mwy o gyfleoedd am gyswllt un i un rhwng disgyblion ac athrawon mewn ysgolion bach megis Ysgol Carreglefn. Mae'n debygol bod hyn wedi cynorthwyo i ddatblygu'r berthynas gref sy'n bodoli rhwng disgyblion a staff yr ysgol. Er hynny, mae'r Cyngor yn nodi y gall addysgu ystod oedran o 7 mlynedd (o'r dosbarth Derbyn i flwyddyn 6) mewn un dosbarth fod yn heriol o ran cwrdd ag anghenion disgyblion o wahanol oedran. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Addysg yn 2019 o dan y teitl *'Running small rural schools efficiently'* yn cefnogi'r datganiad hwn. Mae'r adroddiad yn rhestru'r heriau sy'n gysylltiedig â rhedeg ysgol fechan, gan gynnwys:<br>• "Y brif her oedd cynnal dosbarthiadau oedran cymysg... Teimlai rhai nad oedd hyfforddiant i athrawon wedi'i ddylunio ar gyfer y math yma o ddosbarthiadau ac nid oes llawer o ganllawiau ar gael."<br>• "Nododd nifer o ysgolion fod cynnig cwricwlwm eang a chytbwys yn gallu bod yn heriol"<br><br>Er bod Ysgol Llanfechell, heb os, yn fwy nag Ysgol Carreglefn, mae'n ysgol gymharol fach. Ym mis Ionawr 2024 roedd 72 o ddisgyblion llawn amser yn mynychu'r ysgol (heb gynnwys disgyblion y dosbarth Meithrin) ac roedd rhagolygon y Pennaeth, ym mis Medi 2023, yn darogan y byddai nifer y disgyblion yn disgyn i 55 erbyn 2028.<br><br>Yn Ysgol Llanfechell mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn 4 dosbarth, gan olygu fod 18 disgybl llawn amser, ar gyfartaledd, ym mhob dosbarth. Rhydd hyn ddigon o gyfleoedd am gyswllt un i un rhwng disgyblion a'u hathrawon.<br><br>Yn ystod blwyddyn ysgol 2023/24 mae ystod oedran o 2 flynedd ym mhob dosbarth yn Ysgol Llanfechell. Felly, byddai llai o amrywiaeth yn ystod oedran y plant sy'n cael eu haddysgu yn y dosbarthiadau, a byddai'n cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion o Garreglefn weithio gyda disgyblion o'r un oedran a chael mynediad at gwricwlwm ehangach a mwy cytbwys.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei dderbyn byddai'r Cyngor yn dymuno gweithio gydag Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell i hwyluso'r broses drosglwyddo i ddisgyblion. Byddai'r ysgolion yn cael eu hannog i gynnal gweithgareddau ar y cyd cyn i Ysgol Carreglefn gau, a rhoi cyfle i ddisgyblion Ysgol Carreglefn ymweld ag Ysgol Llanfechell. |

| | Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | Er, yn ddiau, bod perthynas dda rhwng y disgyblion a'r staff yn Ysgol Carreglefn, dyma'r achos hefyd yn Ysgol Llanfechell. Mae paragraff agoriadol adroddiad diweddaraf Estyn (2020) ar gyfer Ysgol Llanfechell yn datgan:<br><br>*"Mae'r ysgol yn* ***gymuned groesawgar a chynhwysol*** *sy'n meithrin awyrgylch dysgu* ***cefnogol*** *a gweithgar i'r disgyblion. Nodwedd arbennig yw'r* ***ethos teuluol*** *sy'n bodoli i sicrhau bod y* ***disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd****. O ganlyniad,* ***mae bron pob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol****, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn meddu ar agweddau cadarnhaol at ddysgu."*<br><br>Mae swyddogion y Cyngor yn sylweddoli y gallai symud o un ysgol i ysgol arall fod yn brofiad anodd i ddisgyblion ond, er hynny, cred swyddogion y byddai'r cynnig yn caniatáu i ddisgyblion o Garreglefn wneud ffrindiau newydd gyda disgyblion o'r un oed yn Ysgol Llanfechell, a gallai fod yn haws iddynt drosglwyddo o addysg Gynradd i addysg Uwchradd mewn blynyddoedd i ddod. |
| **2.** | Mae disgyblion yn hapus â'r adnoddau a'r cyfleoedd yn Ysgol Carreglefn:<br>**(7 ymateb)**<br><br>• Mae gan bob disgybl *Chromebook* a *Microbit* eu hunain - nid oes angen rhannu<br><br>• Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a'r addysg yn Ysgol Carreglefn, e.e. dysgu Ffrangeg, amser stori, gwau, tripiau, dysgu yn yr awyr agored, chwarae yn y parc ar dir y gymuned ac ati. | Petai'r cynnig yn cael ei wireddu, byddai gan pob disgybl fynediad at adnoddau digidol addas yn ôl anghenion y cwricwlwm.<br><br>Mae adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Llanfechell (2020) yn datgan:<br>*"Mae athrawon yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr i'w disgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb".*<br><br>Mae'r adroddiad yn datgan bod Ysgol Llanfechell yn darparu, i'r disgyblion:<br>*"ystod o weithgareddau buddiol yn yr ysgol a thrwy drefnu ymweliadau addas iddynt i fannau diddorol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 ar nodweddion yr ardal o brydferthwch naturiol eithriadol ym Mae Cemlyn".*<br><br>Mae gan Ysgol Llanfechell hefyd adnoddau dysgu ac adnoddau chwarae allanol.<br><br>Dywed yr adroddiad Estyn hefyd:<br>*"Mae staff yn sefydlu perthynas waith agos â'r disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt tra byddant wrth eu gwaith ac yn rhyngweithio â'u cymheiriaid".*<br><br>Mae canlyniad yr adroddiad Estyn yn darparu rhywfaint o sicrwydd y gall Ysgol Llanfechell gynnig o leiaf yr un adnoddau a chyfleoedd i ddisgyblion Ysgol Carreglefn. Gallai'r cynnig gynnal y safonau presennol yn Ysgol Llanfechell a byddai hynny o leiaf yn cyfateb i safonau yn Ysgol Carreglefn. Byddai llai o amrywiad yn ystod oedran y plant sy'n |

| | Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | • Mae'r disgyblion yn hoffi'r staff yn Ysgol Carreglefn a byddant yn eu colli os byddant yn symud i Ysgol Llanfechell. | cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau, gan roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion o Ysgol Carreglefn weithio gyda disgyblion eraill o'r un oedran a chael mynediad at gwricwlwm ehangach a mwy cytbwys. |
| **3.** | Mae ansicrwydd ymysg disgyblion ynglŷn â newid yn gwneud i rai disgyblion boeni.<br>**(7 ymateb)** | Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, cynhaliodd swyddogion y Cyngor sesiwn gyda disgyblion Ysgol Carreglefn. Pwrpas y sesiwn oedd dwyn y rhybudd cau i sylw'r disgyblion, i sicrhau bod ei ystyr yn cael ei egluro iddynt a rhoi cyfle i'r disgyblion ymateb i'r rhybudd os oeddent yn dymuno. Yn ystod y sesiwn roedd yn amlwg fod gan y disgyblion deimladau cymysg. Dywedodd rhai o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n 'drist' fod Ysgol Carreglefn yn cau, dywedodd rhai eu bod 'ofn' symud i ysgol newydd, ac roedd gan rai deimladau cymysg gan eu bod yn teimlo'n 'drist' bod Ysgol Carreglefn yn cau, ond roeddent yn 'hapus' / 'cyffroes' am symud i Ysgol Llanfechell, er efallai eu bod 'ofn' y broses.<br><br>Os caiff y cynnig ei dderbyn, bydd y Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell i wneud y newid yn haws i ddisgyblion Ysgol Carreglefn. Byddai'r ysgolion yn cael eu hannog i gynnal gweithgareddau ar y cyd cyn i Ysgol Carreglefn gau a threfnu i ddisgyblion Ysgol Carreglefn ymweld ag Ysgol Llanfechell.<br><br>Byddai staff yn Ysgol Llanfechell yn monitro ac yn cefnogi disgyblion ar ôl iddynt symud o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell.<br><br>Mae swyddogion y Cyngor yn sylweddoli y gallai symud o un ysgol i'r llall fod yn anodd i ddisgyblion ond cred swyddogion hefyd y byddai'r cynnig yn caniatáu i ddisgyblion o Ysgol Carreglefn wneud ffrindiau newydd gyda disgyblion o'r un oed yn Ysgol Llanfechell a gallai hynny wneud symud o addysg Gynradd i addysg Uwchradd yn haws mewn blynyddoedd i ddod. |
| **4.** | Trefniadau Teithio i Ysgol Llanfechell:<br>**(4 ymateb)**<br>• Ni fydd neiniau a theidiau'n gallu nôl eu plant o'r ysgol | Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r cynnig gael effaith andwyol ar drefniadau codi plant o'r ysgol a threfniadau teithio ac mae hynny wedi cael ei nodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg a'r Gymuned. Gallai'r effeithiau hyn gynnwys:<br>• Ni fydd neiniau a theidiau'n gallu dod i nôl disgyblion o'r ysgol<br>• Ni fydd disgyblion yn gallu cerdded / beicio i Ysgol Llanfechell |

| | Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | • Ni fydd yn bosib cerdded / beicio i Ysgol Llanfechell | • Bydd rhaid i rai disgyblion deithio'n bellach.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn nodi:<br>• O'r 5 disgybl y mae disgwyl iddynt fynychu Ysgol Carreglefn ym mis Medi 2024, dim ond 2 sy'n byw yn nalgylch Ysgol Carreglefn ac mae 2 ddisgybl yn byw yn nalgylch Ysgol Llanfechell.<br>• Nid yw'r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn cael ei hystyried yn addas i ddisgyblion gerdded neu feicio arni i'r ysgol ac yn ôl adref.<br>• Mae'n debygol iawn felly mai dim ond 2 o'r 5 disgybl a fyddai'n parhau i fynychu Ysgol Carreglefn fyddai'n debygol o gerdded neu feicio i'r ysgol.<br>• Mae'n debygol iawn nad yw'r 2 ddisgybl sy'n byw yn nalgylch Ysgol Llanfechell yn gallu cerdded neu feicio i Ysgol Carreglefn ar hyn o bryd, ond efallai y byddant yn gallu cerdded neu feicio i Ysgol Llanfechell. Mae'r Cyngor, felly, yn rhagweld na fydd nifer y plant sy'n gallu cerdded neu feicio i'r ysgol yn disgyn.<br><br>Os caiff y cynnig ei dderbyn, darperir cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Carreglefn, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor.<br>Polisi-Cludiant.pdf (llyw.cymru)<br><br>Mae'r pellter rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell oddeutu 2.2 milltir. |
| **5.** | Beth fydd yn digwydd i Staff Ysgol Carreglefn<br>**(1 ymateb)** | Byddai cefnogaeth briodol yn cael ei gynnig i bob gweithiwr sy'n wynebu cael eu diswyddo, drwy gydol y broses.<br><br>Byddai unigolion yn cael gwybod am derfynu eu cyflogaeth ar sail diswyddo cyn gynted â phosibl, a byddent yn derbyn dim llai na'r cyfnod rhybudd cytundebol neu statudol, p'un bynnag yw'r hiraf.<br><br>Ymgynghorir â staff a'u cynrychiolwyr undebau llafur a byddai staff yn cael cynnig cyfarfod unigol i drafod amgylchiadau unigol. Byddai gan weithwyr hawl i dderbyn cefnogaeth gan eu cynrychiolwyr undebau llafur.<br><br>Byddai unrhyw swyddi newydd yn Ysgol Llanfechell yn cael eu creu yn unol â gofynion y strwythur staffio sy'n cael ei ddatblygu gan gorff llywodraethu Ysgol Llanfechell. |
| **6.** | Camgymeriadau'r Cyngor yn 2016 yw'r rheswm bod niferoedd disgyblion wedi | Mae'r ymateb hwn yn cydnabod ac yn derbyn y rhesymau tu ôl i'r angen am y newid, sef bod niferoedd disgyblion yn disgyn i 5 o fis Medi 2024. Er hynny, roedd yr ymatebydd/ymatebwyr yn mynnu mai camgymeriadau a wnaed gan swyddogion y Cyngor yn 2016 oedd i gyfrif am hyn a bod hynny wedi arwain at ddiffyg cysondeb o ran staffio. Nid yw'r |

<table>
<tr><th></th><th>Crynodeb o’r Gwrthwynebiadau</th><th>Ymateb y Cyngor i’r gwrthwynebiadau</th></tr>
<tr><td></td><td>gostwng a bod diffyg cysondeb o ran staffio yn yr ysgol. Ar y pryd roedd 49 o ddisgyblion yn yr ysgol.<br>(1 ymateb)</td><td>ymatebwyr wedi ymhelaethu ar beth, yn eu barn nhw, oedd y camgymeriadau hynny ac ni ddarparwyd digon o wybodaeth na thystiolaeth i’r Cyngor fedru ymateb yn deg i’r honiad mai camgymeriadau blaenorol a wnaed gan y Cyngor sydd i gyfrif am y gostyngiad yn nifer y disgyblion.<br><br>Derbyniodd Ysgol Carreglefn adroddiad arolygu Estyn yn 2015, ac, yn ôl ei arfarniad, roedd perfformiad yr ysgol yn ‘Ddigonol’ a rhagolygon gwella’r ysgol yn ‘Anfoddhaol’. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at wyth argymhelliad a rhoddwyd yr ysgol mewn mesurau arbennig. Gallai’r adroddiad hwn fod yn un rheswm dros y gostyngiad yn nifer y disgyblion o 2015 ymlaen.<br><br>Er hynny, mae’r Cyngor yn cydnabod bod Estyn wedi dychwelyd i’r ysgol i gynnal ymweliad monitro yn 2017, a barnodd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol. Tynnwyd yr ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig bryd hynny.<br><br>Roedd niferoedd disgyblion yn weddol gyson cyn 2015 ond mae’r Cyngor yn cydnabod bod niferoedd y disgyblion wedi gostwng o 2016 ymlaen. Ni ellir cyfyngu’r gostyngiad hwn i gyfnod penodol mewn amser. Gweler isod y niferoedd disgyblion swyddogol yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD):<br><br>
<table>
<tr><th></th><th>2015</th><th>2016</th><th>2017</th><th>2018</th><th>2019</th><th>2020</th><th>2021</th><th>2022</th><th>2023</th><th>2024</th></tr>
<tr><td>Disgyblion llawn amser yn Ysgol Carreglefn (CYBLD)</td><td>40</td><td>36</td><td>30</td><td>24</td><td>23</td><td>15</td><td>12</td><td>10</td><td>10</td><td>9</td></tr>
<tr><td>% Gostyngiad mewn niferoedd disgyblion</td><td></td><td>10%</td><td>17%</td><td>20%</td><td>4%</td><td>35%</td><td>20%</td><td>17%</td><td>0%</td><td>10%</td></tr>
</table>
<br>Mae hefyd yn bwysig cydnabod, ers i’r ysgol gael ei gosod yng nghategori statudol Estyn yn 2015 mae’r ALI wedi darparu cefnogaeth sylweddol i’r ysgol trwy becyn cefnogaeth cynhwysfawr. Mae hyn wedi cynnwys buddsoddiad sylweddol mewn adnoddau cefnogaeth arweinyddiaeth, cwricwlwm, addysgu a dysgu ac adnabod a threfnu penodiadau penaethiaid ar secondiad yn ystod y cyfnod hwn</td></tr>
<tr><td>7.</td><td>Safonau<br>(1 ymateb)<ul><li>Gwrthod awgrym y Cyngor y byddai safonau addysgu’n well</li></ul></td><td>Nid yw’r Cyngor yn awgrymu mai’r rheswm am y cynnig i gau Ysgol Carreglefn yw oherwydd bod safonau addysgu yn well yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Mae Rhan 5.13 o’r papur cynnig yn crynhoi nifer o resymau dros y cynnig. Un o’r rhesymau yw:<br>“Gallai’r cynnig gynnal y safonau presennol yn Ysgol Llanfechell, a fyddai fan leiaf yn cyfateb i safonau Ysgol Carreglefn”. Nid yw’r Cyngor felly wedi awgrymu y byddai’r safonau’n well.</td></tr>
</table>

| | Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | yn Ysgol Llanfechell. Nid oes tystiolaeth i gefnogi hyn.<br>• Mae'r Cyngor yn barnu'r safonau yn Ysgol Carreglefn yn erbyn adroddiad arolygu o 2015 nad yw'n berthnasol bellach ac mae'n gamarweiniol.<br>• Rhoddwyd Ysgol Carreglefn yn y categori melyn gan GwE yn 2019, ac ni chynhaliwyd arolygiad ers hynny i awgrymu fod y sefyllfa wedi newid.<br>• Nid ydych yn cydnabod fod disgyblion yn Ysgol Carreglefn yn ffodus iawn i dderbyn mwy o sylw unigol yn Ysgol Carreglefn nag mewn ysgolion eraill. | Mewn perthynas ag addysgu a safonau, mae'r papur cynnig yn datgan:<br>*"Byddai llai o amrywiaeth yn yr ystod oedran a addysgir mewn dosbarthiadau, gan roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion o Garreglefn weithio ar y cyd â disgyblion o'r un oedran a chael mynediad at gwricwlwm ehangach a mwy cytbwys".* Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â maint yr ysgolion.<br><br>O dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) mae'n ofynnol i gynigwyr:<br>"*ystyried gallu'r ysgol neu'r ysgolion sy'n destun cynnig i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol addysgol. Dylai'r ystyriaeth hon gynnwys ansawdd darpariaeth y cwricwlwm a'r graddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn"*<br>*"Pan fydd cynigion yn golygu trosglwyddo dysgwyr i ddarpariaeth amgen, fel arfer dylid bod tystiolaeth y byddai'r ddarpariaeth amgen yn sicrhau'r deilliannau ac yn cynnig darpariaeth sydd* ***o leiaf yn cyfateb*** *i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr hynny."*<br><br>Mae'r Papur Cynnig yn cydnabod bod yr adroddiad Estyn diweddaraf wedi dyddio, ac y gallai'r perfformiad fod wedi newid:<br>***"Cydnabyddir bod adroddiadau Estyn ar gyfer Ysgol Carreglefn wedi dyddio, ac y gall perfformiad fod wedi newid ers dyddiad yr adroddiadau hyn."*** *Fodd bynnag, o* dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) mae'n rhaid i gynigwyr gyfeirio at adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn:<br>*"**rhaid** i'r ddogfen gynnwys ..... Gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer pob ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni"*<br><br>Mae'r papur cynnig hefyd yn cydnabod fod Estyn wedi cynnal ymweliad dilynol yn 2017 a'i fod yn fodlon fod digon o gynnydd wedi'i wneud i dynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig. "*Dychwelodd Estyn i gynnal ymweliad monitro (Carreglefn) yn Rhagfyr 2017 a nododd yr adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gymuned Carreglefn wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd fis Hydref 2015". Mae'r ysgol wedi ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig."* Darparwyd dolen i'r adroddiad hwn hefyd.<br><br>Mae'r Cyngor yn cytuno â'r datganiad fod Ysgol Carreglefn wedi cael ei rhoi yn y categori melyn yn 2019, ac nad yw GwE wedi rhoi ysgolion mewn categorïau ers 2019. |

| | Crynodeb o’r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i’r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | Mae Rhan 6 o’r Papur Cynnig yn asesu pob opsiynau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell, trwy ystyried y cyfleoedd a’r heriau ar gyfer pob opsiwn amgen rhesymol. O safbwynt y cynnig (**Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn**), mae’r Cyngor wedi rhestru: “*Llai o gyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion mewn ysgolion mwy*” fel her. Mae’r Cyngor, felly, wedi ystyried bod disgyblion Ysgol Carreglefn yn ffodus iawn i dderbyn mwy o gyswllt un i un. |

## 4. Gwybodaeth Bellach

### Ymateb gan Gyngor Cymuned Mechell

Yn ogystal â'r ymatebion sy'n cael eu crynhoi yn nhabl 1, derbyniwyd sylwadau gan Gyngor Cymuned Mechell. Mae crynodeb o'r ymateb hwn i'w weld isod:

- Mae'n bwysig cydnabod safonau uchel yr addysg a dderbyniwyd dros y 125 mlynedd ddiwethaf. Nid yw maint yr ysgol wedi cael unrhyw effaith andwyol ar lwyddiant nifer o'i disgyblion. Mae'r ysgol wedi cynnig profiad cynnes a gofalgar erioed. Mae nifer o'r disgyblion wedi gweithio'n lleol a ledled y byd ac maent yn parhau i fod yn ased i'w cymunedau.
- Mae'n rhaid i ni ddiolch i staff yr ysgol, sydd wedi cynnal yr ysgol o dan amgylchiadau anodd. Ni fu gan yr ysgol bennaeth parhaol ers peth amser. Mae'r staff wedi wynebu cyfnodau anodd iawn ond maent wedi gweithio'n galed i sicrhau fod pob plentyn yn ffynnu.
- Mae'n bwysig fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gefnogi'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn y neuadd gymunedol ac mae'r Cyngor Cymuned yn cynnig ei gefnogaeth i'r pwyllgor rheoli a phobl leol.
- Mae newid demograffeg mewn ardaloedd gwledig yn sefyllfa drist iawn gan fod prinder o deuluoedd ifanc yn yr ardal ac mae'r gymuned lawer iawn tlotach oherwydd hyn.

Ni ystyriwyd bod y sylwadau hyn yn wrthwynebiadau i'r cynnig, felly nid ydym wedi ymdrin nac ymateb iddynt fel gwrthwynebiadau ffurfiol, ond maent yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn er mwyn bod yn dryloyw a chydnabod y safbwyntiau a rannwyd.

### Plant a Phobl Ifanc Ysgol Carreglefn

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ymwelodd swyddogion y Cyngor ag Ysgol Carreglefn i gynnal sesiwn fer gyda'r disgyblion.

Pwrpas y sesiwn oedd sicrhau fod y rhybudd cau yn cael ei ddwyn i sylw'r disgyblion, bod ei ystyr yn cael ei egluro iddynt a bod camau priodol yn cael eu cymryd i ganiatáu i'r disgyblion ymateb i'r rhybudd cau oes oeddent yn dymuno.

Rhoddwyd cyflwyniad byr - yr oedd y pennaeth wedi cytuno arno ymlaen llaw, a rhoddwyd cyfle i'r disgyblion fynegi eu teimladau ar y cynnig.

Yn ystod y sesiwn, pwysleisiwyd na fyddai adborth o'r sesiwn hon yn cael ei ystyried fel gwrthwynebiad a bod rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau ar bapur neu ar e-bost cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Nodwyd y gallai staff Ysgol Carreglefn gynorthwyo'r disgyblion i wrthwynebu os oeddent yn dymuno.

Paratowyd cofnodion byr o'r drafodaeth gan staff y Cyngor. Rhannwyd y cofnodion gyda'r pennaeth er mwyn cynorthwyo'r disgyblion i baratoi eu gwrthwynebiadau, os oeddent yn dymuno.

Fel y nodwyd uchod, anfonwyd e-bost gan aelod o staff Ysgol Carreglefn ar ran y disgyblion yn ystod y cyfnod gwrthwynebu. Roedd yr e-bost yn cynnwys 7 llythyr gwrthwynebu unigol a phob un wedi'i lofnodi gan y disgyblion. Roedd y prif negeseuon o'r sesiwn yn Ysgol Carreglefn wedi'u cynnwys yn y llythyrau gwrthwynebu hyn. Maent yn cael eu crynhoi yn nhabl 1 uchod.

ATODIAD 2

**Cynnig i:**

**"Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn"**

## ASESIAD EFFAITH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad dechrau'r asesiad** | 18 Ionawr 2024 |
| **Y swyddog sy'n gyfrifol am yr asesiad** | Marc B Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Dyddiad yr adolygiad** | Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig. |

**Mae copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais drwy anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru**

ATODIAD 2

## CYNNWYS


1. CYFLWYNIAD ... 3
2. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB ... 4
   2.1 Cefndir – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ... 5
   2.2 Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ... 7
   2.3 Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 ... 8
   2.4 Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler adran 8 ... 8
   2.5 Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori ... 8
   2.6 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru ... 10
   2.7 Canlyniad yr asesiad ... 16
   2.8 Cynllun Gweithredu ... 18
3. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG ... 19
   3.1 Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg ... 20
   3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg ... 21
   3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg ... 22
   3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg ... 23
   3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu ... 25
   3.6 Ymgynghori ... 27
   3.7 Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus ... 27

4 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED ... 28

5 CASGLIAD ... 40

*6 Gwybodaeth bellach - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol* ... 41

*7 Gwybodaeth bellach – Hawliau Dynol* ... 43

*8 Gwybodaeth bellach - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* ... 44

ATODIAD 2

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, y Gymraeg a'r gymuned wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion.

Y cynnig dan sylw yw:
**"Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn"**

Gwahoddwyd y Penaethiaid a'r Cynghorau Cymuned i gwblhau holiadur i asesu'r defnydd presennol a'r defnydd cymunedol o'r ysgolion a darparu manylion am gyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu ehangach.

Roedd y data a'r dystiolaeth a gasglwyd at ddibenion yr asesiadau yn seiliedig ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2023*, yr niferoedd ar y gofrestr ar 16 Ionawr 2024 (dyddiad CYBLD ar gyfer 2024) ac ystadegau a dderbyniwyd gan Benaethiaid ym mis Medi 2023.

*Mae ystadegau megis nifer siaradwyr Cymraeg ac ati wedi ei cael o Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023, gan bod data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2024 heb ei gyhoeddi eto.

Mae'r ddogfen yn cynnwys:
Adran 2 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Adran 3 – Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg
Adran 4 – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
Adran 5 – Casgliad

Mae'r asesiad effaith wedi ystyried ymrwymiad y Cyngor i'r canlynol:

- Darparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan nad yw'r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded i ac o'r ysgol.
- Gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen.

**Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae'r ddogfen wedi ei diweddaru i ymgorffori sylwadau a gwybodaeth gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o newidiadau** |
| 0.1 | 18 Ionawr 2024 | Drafft cyntaf |
| 0.2 | 11 Ebrill 2024 | Wedi diweddaru Asesiad Effaith ar y Gymuned ar ôl derbyn holiadur wedi ei ddiweddaru gan y Cyngor Cymuned |
| 0.3 | 11 Ebrill 2024 | Wedi diweddaru rhannau sydd yn ymwneud a trefniadau teithio i adlewyrchu sylwadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu |

**2. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

Mae’r asesiad hwn o’r effaith ar gydraddoldeb wedi’i gynnal i fodloni gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018).

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus wrth gyflawni eu swyddogaethau i roi sylw dyledus i’r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae’r Ddeddf yn ymwneud â sicrhau tegwch ac mae’n diogelu’r naw nodwedd ganlynol (a elwir hefyd yn ‘grwpiau gwarchodedig’):

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred.
- Cyfeiriadedd rhywiol

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau uchod i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni’r ddyletswydd gyffredinol. Mae dyletswyddau penodol yn cynnwys gofyniad i asesu effaith ei bolisïau a’i arferion ar grwpiau a warchodir gan y Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i’r awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol i ddeall effaith debygol neu wirioneddol ei bolisïau a’i arferion ar grwpiau gwarchodedig a rhoi ‘sylw dyledus’ (h.y., rhoi pwysau priodol) i ganlyniadau asesiadau o’r fath.

Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth lunio’r achosion busnes, yn ystod y broses o ddatblygu’r prosiect ac, os cânt eu gweithredu, bydd yr effaith wirioneddol yn cael ei monitro. Bydd y ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei diweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod pawb yn cael ystyriaeth deg.

| **2.1 Cefndir – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig sy'n cael ei asesu yw **"Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn"** |
| **Ydy'r cynnig hwn yn un newydd neu'n un sy'n bodoli eisoes?** | Mae hwn yn gynnig sydd wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror 2024. |
| **Beth yw nodau a phwrpas y cynnig hwn?** | Pwrpas y cynnig hwn yw gwella effeithlonrwydd ysgolion a sicrhau cyllid teg.<br><br>Mae Ysgol Carreglefn wedi ei blaenoriaethu gan fod ganddi 80% o leoedd dros ben (Ionawr 2024), a chost fesul disgybl o £17,200 sef yr uchaf o holl ysgolion cynradd Cymru ar gyfer 2023/24. Yn Ionawr 2024, dim ond 9 disgybl oedd yn Ysgol Carreglefn, ac mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6.<br><br>Byddai disgwyl i'r cynnig, o'i wireddu, ddod â'r buddion a ganlyn:<br>• Gellid dileu lleoedd dros ben yn Ysgol Carreglefn, a lleihau lleoedd dros ben yn Ysgol Llanfechell.<br>• Gallai'r amrywiad mewn cost fesul disgybl ar draws holl ysgolion Ynys Môn leihau'n sylweddol.<br>• Gallai'r gost fesul disgybl yn Ysgol Llanfechell leihau, ac amcangyfrifir ei fod yn agos iawn at gyfartaledd Ynys Môn ar gyfer ysgolion cynradd.<br>• Amcangyfrifir y bydd y cynnig yn cyflawni arbediad refeniw o £126k y flwyddyn<br>• Byddai disgwyl i allyriadau carbon ostwng 13tCO2e<br>• Gellid dyrannu mwy o'r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig ar addysgu, gyda llai o adnoddau'n cael eu dyrannu tuag at gynnal a rhedeg adeiladau<br>• Gellid gostwng costau Cynnal a Chadw Presennol a Rhagamcannol o £317,350. Gallai fod llai o adeiladau i'r awdurdod eu cynnal a'u cadw yn y blynyddoedd i ddod, a allai gyfrannu at well rheolaeth strategol o'r ystâd ysgolion yn y dyfodol.<br>• Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn yr Iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br>• Byddai cwricwlwm ehangach a mwy cytbwys ar gael i ddysgwyr o Garreglefn |

ATODIAD 2

Tudalen 43

| **2.1 Cefndir – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | | |
|---|---|---|
| **Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Marc B. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | |
| **Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Arwyn Hughes, Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) | |
| **Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad hwn?** | Aaron Evans – Uwch Reolwr – Sector Uwchradd<br>Alun Roberts - Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol)<br>Emrys Bebb - Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol)<br>Carol Sorahan – Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) | |
| **Oes yna gyswllt rhwng y cynnig hwn a meysydd gwaith eraill?** | Oes - Mae'r cynnig hwn yn gyson ag amcanion y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 18 Gorffennaf 2023. Fodd bynnag, asesir pob cynnig yn ôl ei rinweddau ei hun. | |
| Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw gynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu | ✓ |
| | Hyrwyddo cyfle cyfartal | ✓ |
| | Meithrin cysylltiadau da | ✓ |
| | Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol | ✓ |
| Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol (Beth yw'r Ddyletswydd? – ceir eglurhad yn Adran 6) | Yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion mae Ysgol Carreglefn yn cael ei nodi fel ysgol wledig. Mae'n bosibl felly y gallai'r cynnig gael mwy o effaith ar unigolion oherwydd amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.<br><br>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru'r risg yma trwy gydweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn fel adnodd cymunedol os bydd angen. | |

| 2.1 Cefndir – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | |
|---|---|
| **Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?**<br>**Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas | Ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell, byddai'r canlynol yn cael eu heffeithio:<br>Staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni disgyblion yr ysgolion, aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio'r ysgolion.<br><br>Mae Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ill dau yn cael eu nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel ysgolion gwledig. Mae'n bosibl felly y gallai'r cynnig gael mwy o effaith ar unigolion oherwydd amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.<br><br>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru'r risg yma drwy gydweithio gyda'r gymuned yng Ngharreglefn gyda golwg ar sicrhau dyfodol tymor hir i adeilad ysgol Carreglefn. |



| 2.2 Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| A yw'r cynnig hwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Ydy – asesir hyn ar wahân yn rhan Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon |
| Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Mae Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gyda'r ddwy yng nghategori 3 o ran categori iaith (lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yr ysgol, lle mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r dosbarth). Felly ni fyddai unrhyw newid yn y categori iaith.<br><br>Ym mis Ionawr 2023 (CYBLD), dim ond 10% o ddisgyblion Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref, tra bod 48% o ddisgyblion Llanfechell yn siarad Cymraeg gartref.<br>Gallai'r cynnig felly gyflwyno mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn yr Iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell. |

| | |
|---|---|
| A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Bydd – mae hyn yn cael ei asesu ar wahân yn yr adran ar yr Asesiad Effaith ar Iaith yn y ddogfen hon |
| A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Byddai gwireddu'r cynnig yn gwarchod ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn Ysgol Llanfechell ac yn ardal Carreglefn a Llanfechell. |
| **2.3 Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998** | |
| Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion hyn? | Nid oes unrhyw faterion Hawliau Dynol wedi'u nodi.<br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn adran 7). |
| **2.4 Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler adran 8** | |

| | | |
|---|---|---|
| Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Cymru lewyrchus | Ydy |
| | Cymru gydnerth | Ydy |
| | Cymru iachach | Ydy |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydy |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydy |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Ydy |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ydy |

| | |
|---|---|
| **2.5 Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori** | |
| Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | Cyflwynwyd papur cynnig i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 20 Chwefror 2024, i geisio penderfyniad i gyhoeddi Rhybydd Statudol ar y cynnig hwn, yn unol â'r broses a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Cafodd Rhybydd Statudol ei gyhoeddi ar 1 Fawrth 2024, ac roedd gan rhanddeiliaid hyd tan 2 Ebrill 2024 i wrthwynebu'r cynnig (cyfeirir at y cyfnod hwn fel cyfnod gwrthwynebu). Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd ag ymateb Y Cyngor iddynt, cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu i unai cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig. |
| Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Os ydych, rhowch fanylion: | Mae'r wybodaeth ganlynol am yr ysgolion wedi'i chynnwys:<br>Cydbwysedd rhyw, data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ethnigrwydd, a iaith. Anfonwyd holiaduron at Benaethiaid Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell ac mae'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn gynwysedig yn yr asesiad hwn.<br>Anfonwyd holiadur at Gyngor Cymuned Mechell, ac mae'r wybodaeth ddarparwyd ganddynt wedi ei gynnwys yn yr asesiad hwn. |

ATODIAD 2

| | |
|---|---|
| Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Ni nodwyd unrhyw fylchau ar hyn o bryd. |

| **A yw'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â phobl a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | √ | |
| **Hyrwyddo cyfle cyfartal** | √ | |
| **Meithrin cysylltiadau da** | √ | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | √ | |

## 2.6 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Niwtral**

| Y grŵp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oed** | Cadarnhaol | Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg amser llawn i blant a phobl ifanc 4-16 oed. Mae Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd yn derbyn disgyblion o 3 oed ymlaen. Os gwireddir y cynnig bydd Ysgol Llanfechell yn parhau i dderbyn disgyblion o 3 oed ymlaen. Mae yna hefyd Gylch Meithrin ar dir Ysgol Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin yn endid ar wahân (ac yn annibynnol yn ariannol) i'r ysgol, sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig. Nid oes darpariaeth o'r fath yng Ngharreglefn.<br><br>Er bod y Cylch Meithrin yn annibynnol ar Ysgol Llanfechell, mae'r ddau gorff yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth 'cofleidiol', sy'n golygu y gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen rhieni / gwarcheidwaid. i fod yn bresennol. Gallai'r cynnig olygu bod mwy o ddisgyblion yn ymuno â'r Cylch Meithrin o ddwy a hanner oed ymlaen. | Byddai disgyblion a fyddai'n trosglwyddo o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn cymryd rhan mewn gweithgareddau uno, a fyddai'n cael eu trefnu ar y cyd. Byddai hyn yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddod yn gyfarwydd â'i gilydd cyn y newid. |
| **Anabledd** | Niwtral | Os gwireddir y cynnig:<br>• Mae adeiladau Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Ni fydd unrhyw newid i | Bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion. Bydd anghenion unigol yn cael eu hasesu ar adeg trosglwyddo i unrhyw ysgol. |

ATODIAD 2

<table>
<tr><th>Y grŵp / a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi’r canfyddiadau)</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>adeiladau Ysgol Llanfechell o dan y cynnig hwn.<br>Byddai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn cymorth ychwanegol i ymateb i’w hanghenion addysgol unigol. Mewn ysgol fwy, efallai y bydd staff sy'n arbenigo mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae’n bosibl y byddai cynnydd yn nifer y staff yn arwain at ystod ehangach o arbenigedd i allu ymdrin â sbectrwm ehangach o ADY.</td><td>Bydd yr Awdurdod hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion aelodau staff.<br>Pe bai disgybl ag anabledd yn mynychu Ysgol Llanfechell, byddai'r gwaith sydd ei angen er mwyn i'r adeilad gydymffurfio â'i anghenion yn cael ei adolygu a byddai addasiadau'n cael eu gwneud yn unol â hynny. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu.</td></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td>Niwtral</td><td>Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad rhyw presennol a'r rhaniad os caiff y cynnig ei wireddu.<br>Rhaniad rhyw presennol (Ionawr 2023):
<table>
<tr><th>Rhyw</th><th>Ysgol Carreglefn</th><th>Ysgol Llanfechell</th></tr>
<tr><td>Gwryw</td><td>50%</td><td>58%</td></tr>
<tr><td>Benyw</td><td>50%</td><td>42%</td></tr>
</table>
Rhaniad rhyw os caiff y cynnig ei wireddu:
<table>
<tr><th>Rhyw</th><th>Ysgol Llanfechell</th></tr>
<tr><td>Gwryw</td><td>57%</td></tr>
<tr><td>Benyw</td><td>43%</td></tr>
</table>
Byddai'r rhaniad rhyw a ragwelir o dan y cynnig yn gymharol gyfartal, ac ni fyddai'n destun pryder.</td><td>Caiff perfformiad pob disgybl ei asesu a’i fonitro, i gynnwys grwpiau penodol fel gwryw a benyw, prydau ysgol am ddim, disgyblion ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), plant mewn gofal a’r rhai mwy galluog a thalentog. Mae perfformiad addysgol bechgyn a merched yn cael ei fonitro'n gyson i sicrhau nad oes gwahaniaethau mawr rhwng gwrywod a benywod a'r gwahanol grwpiau cysylltiedig.</td></tr>
<tr><td>Ailbennu Rhywedd</td><td>Niwtral</td><td>Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon.<br>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd.</td><td>Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Beichiogrwydd a Mamolaeth</td><td>Niwtral</td><td>Ddim yn berthnasol i ddisgyblion yr ysgol.</td><td>Mae staff benywaidd sy’n beichiogi yn gymwys am gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Absenoldeb Mamolaeth Cyngor Sir Ynys Môn.<br>Mae staff gwrywaidd yn gymwys ar gyfer absenoldeb tadolaeth yn unol â’r Polisi</td></tr>
</table>

ATODIAD 2

<table>
<tr><th>Y grŵp / a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi’r canfyddiadau)</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Absenoldeb Tadolaeth, neu gall rhieni ofyn am absenoldeb tadolaeth a rennir. Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd neu gymryd gwyliau yn digwydd gyda staff yr ysgol.</td></tr>
<tr><td>Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd</td><td>Niwtral</td><td>Data CYBLD Ionawr 2023:
<table>
<tr><th>Ysgol Carreglefn</th><th>Ysgol Llanfechell</th></tr>
<tr><td>Gwyn Prydeinig 100%*</td><td>Gwyn Prydeinig 96%*</td></tr>
</table>
*Nid yw pob disgybl wedi ateb y cwestiwn hwn fel rhan o'r CYBLD. Mae’r ganran uchod yn seiliedig ar ymatebion yr 83% o ddisgyblion a ymatebodd o Ysgol Carreglefn, a’r 97% o ddisgyblion a ymatebodd o Ysgol Llanfechell.</td><td>Os bydd disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill yn mynychu'r ysgolion, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. Os bydd aelodau staff o gefndiroedd ethnig eraill, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig.</td></tr>
<tr><td>Crefydd neu Gred</td><td>Niwtral</td><td>Nid yw CYBLD Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon.</td><td>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred yn digwydd.<br>Dewis rhieni yw rhannu gwybodaeth am grefydd neu gred eu plentyn gyda’r ysgol.<br>Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Cyfeiriadedd Rhywiol</td><td>Niwtral</td><td>Nid yw CYBLD Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon</td><td>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn digwydd.<br>Dewis rhieni yw rhannu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol eu plentyn gyda’r ysgol. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Priodas neu bartneriaeth sifil</td><td>Niwtral</td><td>Ddim yn berthnasol i ddisgyblion yr ysgol.</td><td>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail priodas/neu bartneriaeth sifil yn digwydd gyda staff yr ysgol. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.</td></tr>
<tr><td colspan="4"></td></tr>
</table>

ATODIAD 2

| Y grŵp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | Niwtral | Mae CYBLD – Ionawr 2023 yn dangos mai dim ond 10% o ddisgyblion Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref, tra bod 48% o ddisgyblion Ysgol Llanfechell yn siarad Cymraeg gartref. Gallai'r cynnig felly gyflwyno mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn gael eu trochi yn yr Iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Fel rhan o'r ymgynghoriad ar Foderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg mynegodd rhai bryderon y gallai cau ysgolion bach/gwledig gael effaith negyddol ar y Gymraeg ac ar gymunedau, gyda rhai yn gweld yr ysgol fel canolbwynt i helpu i drochi mewnfudwyr yn yr Iaith Gymraeg. | Byddai gan Ysgol Llanfechell rôl i helpu i drochi mewnfudwyr Carreglefn yn yr Iaith Gymraeg. Byddai disgyblion a rhieni Carreglefn yn cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol cyfrwng Cymraeg categori 3 (fel y mae Ysgol Carreglefn), lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yr ysgol, lle mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Byddai'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.<br><br>Byddai'r Cyngor hefyd yn dymuno gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Gallai hyn olygu bod adeilad yr ysgol yn parhau i fod ar gael fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol y gellir eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Hawliau Dynol** | Niwtral | Nid yw CYBLD Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon | Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail hawliau dynol yn digwydd gyda staff neu ddisgyblion yr ysgol. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif. |
| **Arall - Economaidd-gymdeithasol**<br><br>**Ysgolion Bach a Gwledig**<br><br>**Ystyriwyd ffactorau economaidd-** | Niwtral | Enwir Ysgol Carreglefn fel ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br><br>Mae yna nifer o ysgolion bach a gwledig o fewn Ynys Môn sy'n perfformio'n dda, ond dylid nodi bod heriau penodol yn gysylltiedig â rhedeg ysgolion bach gwledig. | Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig rôl allweddol i'w chwarae wrth gyfrannu at y gymuned, y defnydd o'r iaith Gymraeg a ffordd o fyw.<br><br>Wrth ystyried ei opsiynau ar gyfer trefniadaeth ysgolion, bydd yr Awdurdod yn ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion addysgol ac |

ATODIAD 2

| Y grŵp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **gymdeithasol a gwledig yn yr 'Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned' isod.** | | Roedd adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg yn 2019 o'r enw, "Rhedeg ysgolion gwledig bach yn effeithiol" yn cynnwys heriau megis:<br>• "Anweddolrwydd yn niferoedd disgyblion. Mae gostyngiad yn niferoedd disgyblion yn achosi cwymp canrannol sylweddol yng nghyllideb yr ysgol"<br>• "Y brif her oedd cynnal dosbarthiadau oedran cymysg…. Teimlai rhai nad oedd hyfforddiant athrawon wedi'i gynllunio ar gyfer y mathau hyn o ddosbarthiadau a bod arweiniad cyfyngedig ar gael"<br>• "Nododd llawer o ysgolion y gall fod yn heriol cynnig cwricwlwm eang a chytbwys"<br>• "Amlygodd ysgolion ac ymddiriedolaethau eu bod yn wynebu heriau recriwtio" | anghenion tymor hir ein cymunedau, trwy gyfrwng cydweithio.<br>Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi pe bai ysgol yn cau.<br>Mae'r awdurdod yn cynnig lliniaru'r effeithiau hyn drwy ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys yn unol â pholisi cludiant ysgol yr awdurdod. |
| **Arall - Economaidd-gymdeithasol. Cyfranogiad plant llai breintiedig mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.** | Niwtral | Potensial i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion fanteisio ar weithgareddau ar ôl ysgol yn Ysgol Llanfechell.<br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bydd disgyblion o Carreglefn yn teithio'n bellach i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol. | Bydd disgwyl i Ysgol Llanfechell wneud darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol, anogir pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, i gyfranogi gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer casglu a darparu cludiant ar ôl ysgol. Gallai disgyblion Carreglefn |

| Y grŵp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | | gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.<br><br>Byddai'r Cyngor hefyd eisiau weithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Gallai hyn olygu bod adeilad yr ysgol yn parhau i fod ar gael fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol. |
| **Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grŵp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod.** | | | |



| **Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)** | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| **A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Wedi'i gynnwys uchod | Gweler uchod | |

**Canlyniad yr asesiad:**

Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; **nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol**. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.

| **2.7 Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol | Yn gyffredinol, ac ar ôl cymryd camau lliniaru i wrthbwyso unrhyw effeithiau negyddol, disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol o ran cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Gan fod Ysgol Carreglefn yn ysgol wledig, gellid gweld bod y cynnig yn cael effaith negyddol ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, o ran teithio i Ysgol Llanfechell ac o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn wedi'u lliniaru trwy'r canlynol:<br>• darparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan fod y ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn anaddas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.<br>• gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen.<br>• bydd disgwyl i Ysgol Llanfechell wneud darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol anogir pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, i gyfranogi gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer casglu a darparu cludiant ar ôl ysgol. |
| Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd. | Byddai disgwyl i'r cynnig, o'i wireddu, arwain at y manteision canlynol:<br>- Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn yr Iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br>- Byddai cwricwlwm ehangach a mwy cytbwys ar gael i ddysgwyr Carreglefn<br>- Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.<br>- Lleihad mewn allyriadau carbon o tua 13tCO2e y flwyddyn.<br>- Sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy cymesur a chyfartal. |

ATODIAD 2

| **2.7 Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Na |
| A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd parhau gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Nag oes |
| Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | Cymerir camau lliniaru i wrthbwyso unrhyw effeithiau negyddol posibl a ragwelwyd – fel y nodir uchod. |
| A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu, cyn gwneud penderfyniad terfynol i unai derbyn, gwrthod neu derbyn y cynnig gyda addasiadau.<br><br>Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu symud ymlaen, bydd swyddogion yn dilyn proses statudol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. |
| Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys gweithdrefnau sydd yn cyfrannu at, herio a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, a monitro cynnydd a rheoli risgiau .<br><br>Mae'r Asesiad Effaith hwn yn ddogfen fyw, a fydd yn parhau i gael ei diweddaru wrth i'r cynnig fynd rhagddo. |



**Casgliad -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; **nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol**. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae effaith bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn cael ei hasesu ar wahân yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Rhan 3)

**2.8 Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | Pwyllgor Gwaith y Cyngor i ystyried yr adroddiad gwrthwynebu a dod i benderfyniad terfynol. | Marc B Hughes | 23 Mai 2024 |

ATODIAD 2

## 3. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant. Mae'r un disgwyliad yn berthnasol o ran y Gymraeg ym mhob un o'r ysgolion, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir ennill y sgiliau priodol i fod yn hyderus ddwyieithog.

Gan fod y cynnig hwn yn edrych ar sut y byddai gweithredu polisïau, strategaethau neu ganllawiau allweddol y Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; a sut y byddai'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n cael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; **cynhelir asesiad effaith mwy cynhwysfawr ar y Gymraeg yma.**

ATODIAD 2

| 3.1 Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg | |
|---|---|
| A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Ydy, effaith gadarnhaol - gweler isod.<br><br>Bydd – bydd pob gohebiaeth a chyfathrebiad yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd unrhyw ddatblygiadau TG newydd yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>• A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br><br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Bydd – bydd pob arwydd yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br>Bydd – bydd cyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio. |
| A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br><br>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg?<br><br>• A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?<br><br>• Sut caiff perfformiad ei fonitro a'i fesur? | Bydd unrhyw swyddi addysgu newydd yn cael eu creu yn unol â'r strwythur staffio a ddatblygwyd gan gorff llywodraethu Ysgol Llanfechell. Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar strwythurau staffio presennol Ysgol Llanfechell. Byddai holl staff Ysgol Carreglefn 'mewn perygl' o gael eu diswyddo a byddai'r Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo ar gyfer ysgolion a'r Polisi Adleoli ar gyfer ysgolion yn cael eu gweithredu.<br><br>Bydd – bydd unrhyw staff newydd a gaiff eu recriwtio yn siaradwyr Cymraeg yn unol â'r polisi iaith a byddant yn parhau i weithredu'r polisi.<br>Bydd – bydd staff newydd yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd trefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br><br>Bydd – canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnodau allweddol a chanran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.<br>Yn ôl data a gasglwyd gan y Gwasanaeth Dysgu megis canran y disgyblion sy'n cyrraedd |

ATODIAD 2

| **3.1 Cydymffurfiaeth â’r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| | y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Cesglir data arall megis canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref fel rhan o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn. |

| **3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A fydd y cynnig hwn yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr??<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o’r gwasanaeth yn Gymraeg? | Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol Categori 3 Cyfrwng Cymraeg (o ran Categori iaith), h.y., ysgol lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu o fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio’r Gymraeg y tu fewn a thu allan i’r dosbarth. Ar gyfer trochi, bydd pob disgybl yn cael ei addysgu'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar adegau i sicrhau dealltwriaeth. |
| Oes perygl i’r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi’u hystyried yn y cynnig?<br><br>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a’r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br><br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Na fydd – Bydd y ddwy ysgol yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod.<br><br>Ydyn – anghenion disgyblion Cymraeg eu hiaith yw un o’r prif yrwyr ar gyfer y cynnig hwn.<br><br>Ydyn – bydd yr un safon o wasanaeth yn cael ei ddarparu i bob disgybl.<br><br>Nac ydyn – ni fydd trefniadau o ran y Gymraeg yn arwain at oedi yn y gwasanaeth. |
| • A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br>• A yw’n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br><br>• A yw’n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o’r Gymraeg e.e. busnesau? | Ni ragwelir unrhyw newid arwyddocaol.<br><br>Bydd arwyddion yn Ysgol Llanfechell yn parhau i gydymffurfio â'r polisi iaith. Bydd Ysgol Llanfechell yn parhau i hybu ac annog y defnydd o'r Gymraeg a gallai ddefnyddio deunyddiau Cymraeg.<br><br>Bydd arwyddion dwyieithog yn parhau i gael eu gweld gan lawer yn yr ardal leol. |
| • A fydd y gwasanaeth Cymraeg ynghlwm â’r cynnig yn hygyrch?<br><br>• A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i’w gael yn Gymraeg a Saesneg? | Bydd – gweler uchod |

ATODIAD 2

| **3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | |

| **3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| • A yw'r cynnig yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau? | Dim ond 1 disgybl o Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell, felly byddai disgyblion Ysgol Carreglefn yn cael mwy o gyfleoedd i drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Mae gan Ysgol Llanfechell (sydd ond 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn) le i dderbyn disgyblion o Ysgol Carreglefn, ac unrhyw ddisgyblion ychwanegol o ddatblygiadau tai yn yr ardal.<br><br>Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg, cododd rhai ymatebwyr bryderon y gallai'r posibilrwydd o gau ysgolion cymunedol gael effaith negyddol ar bobl ifanc yn aros yn eu cymunedau lleol, ac ar y Gymraeg o fewn cymunedau.<br><br>Disgwylir i'r effaith o'r cynnig hwn yn fach iawn. Ar hyn o bryd dim ond 9 disgybl sydd yn mynychu Ysgol Carreglefn, ac mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6 (ac felly yn trosglwyddo i ysgol Uwchradd erbyn gwireddu'r cynnig – os yw'r cynnig fel y mae yn cael ei dderbyn).<br><br>Cydnabyddir y bydd y cynnig yn arwain at gau un o'r ychydig amwynderau cyhoeddus sy'n gwasanaethu'r gymuned leol. Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol trwy:<br>▪ ddarparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor.<br>▪ gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen |
| • A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg? | Nag ydy – Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith sylweddol ar yr economi leol. Rhaid cydnabod fodd bynnag bod y cynnig yn golygu llai o gyfleoedd cyflogaeth o fewn ardal Carreglefn. |

| **3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| • A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol ar Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig. |
| • A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?<br><br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg?<br><br>• A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br><br>• A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? E.e. darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon.<br><br>• A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith – e.e. gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ac ati? | Ydy – gweler isod.<br><br>Ydy – os gwireddir y cynnig, bydd amryw o weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Ydy – bydd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau allgyrsiol, yn ogystal ag yn y clybiau gofal plant a brecwast cyn ysgol.<br><br>Yn rhannol – Ni fydd gwasanaethau newydd o reidrwydd ar gael o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnig. Fodd bynnag, gallai'r cynnig arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Llanfechell, a allai arwain at weithgareddau allgyrsiol newydd, oherwydd cynnydd yn y galw.<br><br>Ydy – os gwireddir y cynnig, byddai gweithgareddau'r Urdd yn parhau yn Ysgol Llanfechell. |

| **3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Polisïau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig? | Nac ydy – Nid yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi hysbysu llawer o randdeiliaid a sefydliadau allanol (megis, ond heb fod yn gyfyngedig i: rhieni, staff, cyrff llywodraethu, Llywodraeth Cymru, Estyn, GwE, cynghorau cymuned a thref ac ati) pan gafodd y Rhybydd Statudol ei gyhoeddi. Cafodd rhanddeiliaid o'r 1af Fawrth 2024 – 2il Ebrill 2024 i wrthwynebu'r cynnig Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd ag ymateb Y Cyngor iddynt, cyn i'r Pwyllgor Gwaith |

ATODIAD 2

| 3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg | |
|---|---|
| | benderfynu i unai cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig |
| • Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad? | Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliad arall. |
| • Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith? | Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliad arall. |
| • A yw'r cynnig yn cyfrannu at y cynlluniau hyn? | Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliad arall. |
| Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br><br>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016? | Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr adrannau canlynol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn 2022 - 2032 yn y ffyrdd a ganlyn:<br><br>**Deilliant 1**: Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>**Deilliant 2**: Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>**Deilliant 5**: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.<br><br>Bydd y Cylch Meithrin, sydd wedi ei leoli ar dir Ysgol Llanfechell, yn darparu sylfaen gadarn yn y Gymraeg i'r plant cyn iddynt drosglwyddo i Ysgol Llanfechell. Bydd hyn yn cyfrannu at gyflawni Deilliant 1 a 2 uchod.<br><br>Bydd mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell, gan fod mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell. Efallai hefyd y bydd mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanfechell – oherwydd y cynnydd yn niferoedd y disgyblion. |
| • Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol categori 3 cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ysgolion yn anelu at ddatblygu'r Gymraeg, a nifer y siaradwyr Cymraeg. Bydd nifer y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref yn cael ei werthuso'n flynyddol trwy ddata a gafwyd o CYBLD. Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn adrodd yn chwarterol i'r Fforwm Iaith Sirol ar y defnydd o'r Gymraeg yn |

| **3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| | ysgolion yr Awdurdod a chaiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod ei fonitro'n chwarterol gan y Fforwm Iaith Sirol. |

| **3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu** | |
|---|---|
| Pa effeithiau ydych chi wedi'u nodi (h.y., crynodeb o'r atebion i'r cwestiynau uchod), ynghyd â thebygolrwydd a difrifoldeb/arwyddocâd tebygol yr effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r deilliannau o ran y Gymraeg? Rhowch fanylion am fesurau lliniaru/opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r deilliannau cadarnhaol: | |
| Yr effeithiau cadarnhaol: | Y prif effeithiau cadarnhaol a ragwelir o ganlyniad i'r cynnig yw:<br>• Bydd mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell, gan fod mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br>• Efallai hefyd y bydd mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanfechell – oherwydd y cynnydd yn niferoedd y disgyblion.<br>• Gall mwy o blant ifanc Carreglefn dderbyn Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg o oedran iau, gan fod Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg ar dir Ysgol Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ac Ysgol Llanfechell yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cofleidiol, sy'n golygu y gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen i rieni / gwarcheidwaid fod yn bresennol. |
| Yr effeithiau negyddol: | Dim ond 1 disgybl o Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell, felly byddai disgyblion Ysgol Carreglefn yn cael mwy o gyfleoedd i drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Mae gan Ysgol Llanfechell (sydd ond 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn) le i dderbyn disgyblion o Ysgol Carreglefn, ac unrhyw ddisgyblion ychwanegol o ddatblygiadau tai yn yr ardal |

| 3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu | |
|---|---|
| | Cododd rhai ymatebwyr i'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg bryderon y gallai'r posibilrwydd o gau ysgolion cymunedol gael effaith negyddol ar bobl ifanc yn aros yn eu cymunedau lleol, ac ar y Gymraeg o fewn cymunedau.<br><br>Disgwylir i'r effaith hon (o'r cynnig hwn) fod yn fach iawn. Ar hyn o bryd dim ond 9 disgybl sydd yn mynychu Ysgol Carreglefn, ac mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6 (ac felly yn trosglwyddo i ysgol Uwchradd erbyn gwireddu'r cynnig – os yw'r cynnig fel y mae yn cael ei dderbyn).<br><br>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol trwy:<br>▪ ddarparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor.<br>▪ gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen. |
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith? | Bydd Ysgol Llanfechell yn parhau i hybu'r Gymraeg.<br><br>Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol Categori 3 Cyfrwng Cymraeg (o ran Categori iaith), h.y., ysgol lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu o fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Ar gyfer trochi, bydd pob disgybl yn cael ei addysgu'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar adegau i sicrhau dealltwriaeth. |
| Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd i gefnogi'ch asesiad: | ▪ CYBLD 2023 – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion<br>▪ Niferoedd ar y gofrestr 16 Ionawr 2024 (dyddiad CYBLD ar gyfer 2024)<br>▪ Ystadegau Medi 2023 a dderbyniwyd gan penaethiaid<br>▪ Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn<br>▪ Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg. |

| **3.6 Ymgynghori**<br><br>**I'w ddiweddaru os bydd y Pwyllgor Gwaith yn awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol** | |
|---|---|
| Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg? | Gan bod llai na 10 disgybl cofrestredig pan gynhelir y cyfrifiad yn mis Ionawr, mae deddf 2013 yn caniatáu awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach ar gyfer cynnig megis yr un yma, sydd yn golygu na fydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad statudol. Fodd bynnag bu i'r Cyngor gyhoeddi Rhybydd Statudol ar gyfer y cynnig, ac roedd gan rhanddeiliaid o'r 1af Fawrth 2024 – 2il Ebrill 2024 i wrthwynebu i'r cynnig (cyfeirir at y cyfnod hwn fel cyfnod gwrthwynebu). Roedd rhanddeiliaid yn gallu gwneud unrhyw sylw neu wrthwynebiad yn ystod y cyfnod hwn. Cafwyd 8 gwrthwynebiad ac 1 sylw yn ystod y cyfnod. Mae rhain wedi ei crynhoi yn yr Adroddiad Gwrthwynebu (Atodiad 1). |
| Gyda phwy ydych chi'n ymgynghori?<br>Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb? | Gweler uchod |
| Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd? | Wedi i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd ag ymateb Y Cyngor iddynt, cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu i unai cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig |

| **3.7 Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus** | |
|---|---|
| Crynhowch eich cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.<br><br>**Bydd angen cyfeirio at y crynodeb hwn yn y templed asesiad effaith ar gydraddoldeb** | Wedi rhoi ystyriaeth i'r sylwadau yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu, mae'r cynnig yn parhau fel ag yr oedd, sef:<br>"Trosglwyddo disgyblion Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a cau Ysgol Carreglefn".<br><br>Mae effeithiau tebygol ar y Gymraeg wedi eu rhestru yn rhan 3.5 uchod. |
| Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus tra bydd y polisi ar waith? | Defnyddir y cynllun gweithredu ar ddiwedd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw gamau a gynllunnir ar ôl cwblhau'r asesiad. |

## 4 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith bosib y cynnig i "**Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn**" ar y gymuned leol.

Mae'r tablau isod yn dangos nifer y disgyblion yn Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd, a thros y 4 cyfrifiad ysgol blynyddol blaenorol ac yna'r nifer a ragwelir ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ynghyd â rhagamcanion disgyblion os aiff y cynnig yn ei flaen:

**Niferoedd disgyblion yn y gorffennol**

| Ysgol | Capasiti – heb gynnwys Meithrin | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2020 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2021 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2022 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2023 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2024 | % Lleoedd dros ben Ionawr 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 46 | 15 | 12 | 10 | 10 | 9* | 80% |
| Llanfechell 3-11 | 106 | 62 | 66 | 74 | 77 | 72 | 32% |

*NODER – O'r 9 disgybl sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6.

Yn Ionawr 2024, roedd 9 disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Carreglefn, gyda 8 yn bresennol ar ddyddiad CYBLD

Yn Ionawr 2024, roedd 72 disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Llanfechell (heb gynnwys Meithrin), gyda 65 yn bresennol ar ddyddiad CYBLD.

**Rhagamcanion 5 mlynedd 2024-2028**

| Ysgol | Capasiti – heb gynnwys Meithrin | Niferoedd Disgyblion Medi 2023 | Rhagamcan Medi 2024 | Rhagamcan Medi 2025 | Rhagamcan Medi 2026 | Rhagamcan Medi 2027 | Rhagamcan Medi 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 46 | 9 | 5 | 4 | 4 | 5 | 4 |
| Llanfechell 3-11 | 106 | 73 | 74 | 65 | 61 | 57 | 53 |

**Rhagamcanion Disgyblion os aiff y cynnig yn ei flaen**
Mae rhagamcanion yn cadarnhau y byddai niferoedd disgyblion wedi'u cyfuno yn disgyn i 57 erbyn 2028. O ganlyniad, mae'r cynnig i "**Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn**" yn rhesymol. Mae'r capasiti y mae Ysgol Llanfechell yn ei ddarparu yn ddigonol ar gyfer datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal fel y gwelir yn y tabl isod:

| Ysgol | Dyraniad sy'n weddill ar gyfer datblygiadau tai yn y dalgylch (2018-2026) – gan gynnwys unedau gyda chaniatâd cynllunio | Nifer cyfatebol o blant* |
|---|---|---|
| Carreglefn | 8 | 1 |
| Llanfechell | 12 | 2 |

ATODIAD 2

*Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ o fewn yr ardal gynnyrch ehangach haen ganol [MSOA*[1]], ar gyfartaledd, 0.14 o blant oed ysgol gynradd. Mae lluosi nifer y datblygiadau tai â 0.14 yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y byddai angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno.

*[1] MSOA - ardaloedd fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer adrodd ar wybodaeth cyfrifiad. Mae'r MSOA fel arfer yn cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd ac mae ganddynt boblogaeth o rhwng 5,000 a 15,000 o bobl. Mae rhagor o wybodaeth am yr MSOAs ar gael ar y ddolen ganlynol - Census 2021 geographies - Office for National Statistics (ons.gov.uk),

Mae'r tablau uchod yn dangos pe bai'r holl ddarpariaeth tai a nodir uchod yn cael ei gwireddu, byddai digon o leoedd o hyd yn Ysgol Llanfechell ar gyfer disgyblion Carreglefn a Llanfechell.

| | Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2024 | Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2025 | Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2026 | Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2027 | Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2028 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llanfechell | 77 | 72 | 70 | 67 | 62 |

Gall rhieni ddewis anfon eu plentyn/plant i ba bynnag ysgol y dymunant.

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Ym mis Gorffennaf 2023:

- Roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o'r dalgylch.
- Roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o'r dalgylch.

**Darpariaeth cyn ysgol**

Mae'r ddarpariaeth cyn ysgol ganlynol ar gael yn ardal Carreglefn, a Llanfechell:
Mae'r ddwy ysgol wedi'u cofrestru ar gyfer plant 3-11 oed ac yn darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sydd wedi tri'n 3 oed cyn 1 Medi mewn unrhyw flwyddyn.

Rhagamcan o'r Lleoedd Meithrin:

| | Niferoedd meithrin cyfredol ar y gofrestr Ionawr 2024 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2024 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2025 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2026 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2027 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Llanfechell 3-11 | 6 | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 |

Mae'r tabl uchod yn dangos mai'r nifer o ddisgyblion meithrin a ragwelir yn Ysgol Carreglefn a Llanfechell ar y cyd yw 8 pan fydd ar ei uchaf yn 2026. Y rhif derbyn meithrin ar gyfer Ysgol Llanfechell yw 13. Felly mae'n rhesymol tybio y byddai nifer digonol o leoedd meithrin yn Ysgol Llanfechell pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Byddai'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Llanfechell yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell. Nid oes galw sy'n hysbys o fewn yr ardal am fath penodol o ddarpariaeth, e.e. darpariaeth â chymeriad crefyddol.

Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol ar Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod ar gyfer darparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig. Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol ar y Cylch Meithrin, a gallai gael effaith gadarnhaol ar y darparwr (h.y. cynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu). Arolygwyd y ddarpariaeth ddiwethaf gan Estyn ym mis Ionawr 2020, pan arfarnwyd bod Lles, Gofal a Datblygiad, Addysgu ac Asesu, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn dda. Barnwyd bod yr Amgylchedd yn Ddigonol. Mae'r Cylch Meithrin ac Ysgol Llanfechell yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cofleidiol, sy'n golygu y

gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen i rieni / gwarcheidwaid fod yn bresennol.

Nid oes darpariaeth cyn ysgol yng Ngharreglefn, ac eithrio dosbarth Meithrin yr ysgol, ar gyfer plant sydd wedi troi'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn.
Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliadau eraill.

**Gwybodaeth am yr ysgolion**

**Ysgol Carreglefn (Carreglefn, Ynys Môn LL68 0PH)**

Adeiladwyd Ysgol Carreglefn tua 1899. Mae ganddi 3 ystafell ddosbarth, Neuadd Fwyta 64m$^2$, ac ystafell athrawon. Y tu allan mae ardal chwarae fechan a chae chwarae bychan y tu cefn i'r ysgol. Cyfanswm arwynebedd mewnol yr ysgol yw tua164 m$^2$.

Yn Ionawr 2024: roedd gan Ysgol Carreglefn 9 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 5 disgybl yn mynychu o fewn y dalgylch (56%).

Mae'r ystodau oedran blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysgu ym mhob ystafell ddosbarth fel a ganlyn:

| Ystafelloedd Dosbarth Ysgol Carreglefn 1 | Ystod oedran a addysgir fesul ystafell ddosbarth |
|---|---|
| | Meithrin – Blwyddyn 6 |

**Ysgol Llanfechell** (Llanfechell**,** Ynys Môn LL68 0SA)

Adeiladwyd Ysgol Llanfechell tua 1980. Mae ganddi 4 ystafell ddosbarth, Neuadd Fwyta 86m$^2$, swyddfa ar gyfer y pennaeth ac ystafell athrawon. Mae gan yr ysgol hefyd nifer o ystafelloedd at ddefnydd y gymuned megis ystafell bwyllgora, ystafell clwb ieuenctid, ystafell gymunedol ac ati. Yn allanol mae ardaloedd chwarae caled a glaswelltog gyda chae pêl-droed wrth ochr yr ysgol. Cyfanswm arwynebedd mewnol yr ysgol (gan gynnwys ardaloedd defnydd Cymunedol) yw tua565m$^2$.

Ym Medi 2023: roedd gan Ysgol Llanfechell 73 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 59 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch. (81%).

Mae'r ystodau oedran blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysgu ym mhob ystafell ddosbarth fel a ganlyn:

| Ystafelloedd Dosbarth Ysgol Llanfechell 4 | Ystod oedran a addysgir fesul ystafell ddosbarth |
|---|---|
| | Meithrin a Derbyn |
| | Blwyddyn 1 – 2 |
| | Blwyddyn 3 – 4 |
| | Blwyddyn 5 – 6 |

**Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion**

Cafwyd manylion am gyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion o holiaduron a gwblhawyd gan Benaethiaid Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell. Darparodd Cyngor Cymuned Mechell hefyd fanylion am weithgareddau lleol a gynhelir.

**Gweithgareddau allgyrsiol ar gael i ddisgyblion Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:**

ATODIAD 2

| Ysgol Carreglefn<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Clwb aml-weithgaredd | Tymor | Bob wythnos yn ystod y tymor ysgol |

| Ysgol Llanfechell<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Urdd | Tymor | Misol – Yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn |
| Clwb Coginio | Tymor | 20 gwaith y flwyddyn |
| Clwb Athletau | Tymor | Tymor yr haf |
| Codio Cyfrifiadurol | Tymor | Tymor y gwanwyn - Wythnosol |
| Clwb Ffilm | Tymor | Misol |

**Cyfleusterau ysgol yn Ysgol Carreglefn a Llanfechell a ddefnyddir gan grwpiau lleol:**

| Ysgol Carreglefn<br>Y Defnyddiwr a'r Cyfleuster | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Chwist | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Dwywaith y mis |
| Cyngor Cymuned | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Chwe gwaith y flwyddyn |
| Pwyllgor Cymuned | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Tair gwaith y flwyddyn |
| Pwyllgor Maes Coffa | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Tair gwaith y flwyddyn |
| Gwasanaeth Cofio | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Blynyddol |
| Clwb Y Cen | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Misol |
| Clwb Clytwaith | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Misol |
| Arddangosfa Crefftau Clwb Clytwaith | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Dwywaith y flwyddyn |

| Ysgol Llanfechell<br>Y Defnyddiwr a'r Cyfleuster | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Chwist | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Dwywaith y mis |

ATODIAD 2

| **Ysgol Llanfechell**<br><br>**Y Defnyddiwr a'r Cyfleuster** | **Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Clwb Pensiynwyr | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Misol |
| Cylch Meithrin | Tymor | Pedwar diwrnod yr wythnos |
| Pwyllgor Cymuned | | 6 gwaith y flwyddyn |
| Ffair Mechell | | Blynyddol |
| Sefydliad y Merched | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | 11 gwaith y flwyddyn |
| Ffrindiau Mechell | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | 6 gwaith y flwyddyn |
| Môn Actif | Gwyliau | 3 gwaith y flwyddyn |
| Clwb Pabi | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Misol |
| Clwb Yoga | Gwyliau | 8 gwaith y flwyddyn |
| Ti a Fi | Tymor | Misol |

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Penaethiaid, mae cyfleusterau Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn cael eu defnyddio gan nifer o grwpiau o'r gymuned leol.

**Gweithgareddau cymunedol sydd ar gael ger Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:**

Cafwyd y wybodaeth ganlynol gan Gyngor Cymuned Mechell..

| **Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Carreglefn** | **Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Cyfrwng Cymraeg** |
|---|---|
| Dywed Cyngor Cymuned Mechell mai adeilad yr ysgol yw'r unig le i gyfarfod. | |

| **Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Llanfechell** | **Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Cyfrwng Cymraeg** |
|---|---|
| Dywed Cyngor Cymuned Mechell bod y Ganolfan Gymuned yn adnodd gwerthfawr iawn i'r pentref. Yma cynhelir llu o weithgareddau a digwyddiadau. Mae cegin hwylus, toiledau, ystafell gyfarfod fawr ac un bach. | |

ATODIAD 2

**Gofal plant a gofal cyn ysgol ar gael yn Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:**

| Ysgol Carreglefn | Iaith | Yn annibynnol o'r ysgol | Lleoliad y ddarpariaeth | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Gofal Plant Cyn Ysgol | Dwyieithog | Na | Neuadd yr ysgol | Llun - Gwener |
| Clwb Brecwast | Dwyieithog | Na | Neuadd yr ysgol | Llun - Gwener |

| Ysgol Llanfechell | Iaith | Yn annibynnol o'r ysgol | Lleoliad y ddarpariaeth | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Gofal Plant Cyn Ysgol | Dwyieithog | Na | Neuadd yr ysgol | Llun - Gwener |
| Clwb Brecwast | Dwyieithog | Na | Neuadd yr ysgol | Llun - Gwener |

**Gweithgareddau cymunedol ar gael yn lleol:**

Cafwyd yr wybodaeth ganlynol gan Gyngor Cymuned Mechell

| Carreglefn | Amlder | Lleoliad |
|---|---|---|
| Clwb aml-weithgaredd | Bob wythnos yn ystod y tymor ysgol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Chwist | Dwywaith y mis | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Cyngor Cymuned | Chwe gwaith y flwyddyn | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Pwyllgor Cymuned | Tair gwaith y flwyddyn | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Pwyllgor Maes Coffa | Tair gwaith y flwyddyn | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Gwasanaeth Cofio | Blynyddol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Clwb Y Cen | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Clwb Clytwaith | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Arddangosfa Crefftau Clwb Clytwaith | Dwywaith y flwyddyn | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Clwb Gofal Plant Cyn Ysgol | Dyddiol (Llun – Gwener) | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Clwb Brecwast | Dyddiol (Llun – Gwener) | Neuadd Gymuned Carreglefn |

Dywed Cyngor Cymuned Mechell mai'r ysgol yw'r unig leoliad addas i gyfarfod. Mae Neuadd Gymuned Carreglefn yn rhan o adeilad yr ysgol.

ATODIAD 2

| Llanfechell | Amlder | Lleoliad |
|---|---|---|
| Clwb Yr Urdd | Wythnosol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Chwist | Pythefnosol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Partïon Plant | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Gweithgareddau Cyfeillion Mechell | Pob yn ail mis | Y Ganolfan Gymunedol |
| Clwb Lego | Gwyliau Ysgol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Merched y Wawr | Misol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Clwb Hanes | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Etholiadau | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Zumba | Dwywaith yr wythnos | Y Ganolfan Gymunedol |
| Pilates | Wythnosol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Ysgol Feithrin | Llun – Iau | Y Ganolfan Gymunedol |
| Cyfarfod Pwyllgor Ysgol Feithrin | Tymhorol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Cyngor Cymuned | Pob yn ail mis | Y Ganolfan Gymunedol |
| Cyfarfodydd Pwyllgor Canolfan Gymuned | Tymhorol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Ffair yr Eglwys | Blynyddol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Rygbi Tag | Wythnosol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Cyfarfodydd Allanol | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Gweithgareddau Codi Arian | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |
| ‘Roadshow’ Gwasanaethau | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |

Dywed Cyngor Cymuned Mechell bod y Ganolfan Gymuned yn adnodd gwerthfawr iawn i’r pentref. Yma cynhelir llu o weithgareddau a digwyddiadau. Mae cegin hwylus, toiledau, ystafell gyfarfod fawr ac un bach.

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, rhagwelir y byddai rhieni a disgyblion Ysgol Llanfechell yn cefnogi ac yn ymgysylltu â disgyblion a rhieni Ysgol Carreglefn. Byddai pob disgybl yn cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol fel y rhai a grybwyllwyd uchod, yn Ysgol Llanfechell. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol anogir pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, i gymryd rhan gyda'r disgwyliad ar Ysgol Llanfechell i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer dewis a darparu cludiant ar ôl ysgol.

Os gwireddir y cynnig, byddai Ysgol Llanfechell yn parhau i fod yn Ysgol Gymunedol. Os gwireddir y cynnig, byddai disgwyl i weithgareddau a chyfleusterau Ysgol Llanfechell gael eu cynnal neu eu gwella.

**Pellter ac amser teithio**

Mae Ysgol Llanfechell tua 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn (Ffynhonnell – Google Maps).

Pe bai’r cynnig yn cael ei awdurdodi, byddai’n golygu pellteroedd teithio hirach i rai disgyblion o Garreglefn. Ar sail y disgyblion ar gofrestr Ysgol Carreglefn (Gorffennaf 2023), byddai 18% (2 ddisgybl) yn teithio llai i Ysgol Llanfechell tra byddai 82% (9 disgybl) yn gorfod teithio ymhellach. Dylid nodi fodd bynnag fod 6 o'r 11 disgybl ym mlynyddoedd 5 neu 6 ar y pryd. Ni fyddai’r disgyblion hyn yn cael eu heffeithio gan y cynnig, gan y byddant yn / wedi trosglwyddo i Addysg Uwchradd cyn y dyddiad yr awgrymir gweithredu’r cynnig. Os na chynhwysir y 6 disgybl hyn, mae 2 (40%) o'r 5 disgybl sy'n weddill yn byw yn agosach i Ysgol Llanfechell, tra bod 3 disgybl (60%) yn byw yn agosach i Ysgol Carreglefn. Gan nad yw’r llwybr o Garreglefn i Lanfechell yn addas i ddisgyblion oed cynradd gerdded / seiclo i’r ysgol ac oddi yno, byddai’r Awdurdod yn darparu cludiant i ddisgyblion cymwys yn unol â’r polisi cludiant ysgol, sy’n golygu y byddent yn annhebygol o gerdded neu feicio i'r ysgol. Mae’r amser teithio o Ysgol Carreglefn ar fws i Ysgol Llanfechell tua 7 munud heb ystyried unrhyw stopio i godi disgyblion.

ATODIAD 2

Fis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o fewn y dalgylch (64%).

- Daw 50% o'r disgyblion nad ydynt yn nalgylch Ysgol Carreglefn o ddalgylch Ysgol Llanfechell [2 ddisgybl].
- Mae llai na 47% (7/15) o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Carreglefn yn mynychu Ysgol Carreglefn.

Fis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch (73%).

- Daw 4% o'r disgyblion nad ydynt yn nalgylch Ysgol Llanfechell o ddalgylch Ysgol Carreglefn [1 disgybl].
- Mae tua 78% o’r disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Llanfechell yn mynychu Ysgol Llanfechell.

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar batrymau teithio disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd. Mae'n annhebygol y byddai disgyblion Carreglefn yn gallu cerdded neu feicio i Ysgol Llanfechell gan nad yw'r llwybr yn addas i ddisgyblion oed cynradd i gerdded / seiclo i'r ysgol nac yn ôl. Noder yn rhai o’r ymatebion yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, y gall y cynnig hefyd effeithio ar allu perthnasau i fynd a plant i / o’r ysgol ar gyfer y disgyblion sydd yn byw o fewn y dalgylch.

Eisoes mae bws sy'n gwasanaethu Ysgol Carreglefn. Ar wahân i'r pellter ychwanegol o 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell, mae'n annhebygol iawn y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant cyhoeddus. Mae'r bwriad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar draffig yn ardal Carreglefn, gan fod nifer y cerbydau sy'n teithio ar y ffyrdd cul sy'n gwasanaethu Ysgol Carreglefn yn debygol o leihau.

Disgwylir i ganran y traffig cynyddol drwy Lanfechell fod yn fach iawn.

Dywed Llywodraeth Cymru na ddylai disgyblion oed cynradd orfod teithio mwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cynradd o dan 16 oed sy'n byw **2 filltir** neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch. Mae’r un polisi hefyd yn datgan, “na fydd cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion meithrin rhan amser.”

ATODIAD 2

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

Er mwyn penderfynu ar effaith bosibl y cynnig ar y gymuned, mae'r cynnig yn erbyn y meini prawf yn y tabl isod wedi'i nodi fel cadarnhaol os bernir ei fod yn fuddiol, negyddol os bernir ei fod yn niweidiol a Dim effaith os bernir nad yw'r cynnig yn cael effaith arwyddocaol.

| **Maen Prawf** | **Arsylwadau** | **Effaith** Cadarnhaol / Negyddol / Niwtral | **Mesurau Lliniaru** |
|---|---|---|---|
| Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol | Ym mis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o fewn y dalgylch (64%).<br>• Daw 50% nad ydynt yn nalgylch Ysgol Carreglefn o ddalgylch Ysgol Llanfechell [2 Ddisgybl].<br><br>Ym mis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch (73%).<br>• Daw 4% nad ydynt yn nalgylch Ysgol Llanfechell o ddalgylch Ysgol Carreglefn [1 Disgybl]. | Cadarnhaol | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo bydd dalgylchoedd Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn cael eu cyfuno.<br>Ar hyn o bryd mae 28% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, neu Ysgol Llanfechell o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol y maent yn ei mynychu.<br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, a chan gymryd y bydd disgyblion o Ysgol Carreglefn yn trosglwyddo i Ysgol Llanfechell, yn seiliedig ar ffigurau Gorffennaf 2023 byddai canran y disgyblion a fyddai'n mynychu ysgol y tu allan i'w dalgylch yn disgyn i 25%. |
| Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned gan | Mae pob ysgol yn darparu gweithgareddau a gwasanaethau allgyrsiol, fodd bynnag mae mwy o weithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell nag yn Ysgol Carreglefn. | Cadarnhaol | Trwy gydweithio gyda'r gymuned, gellid sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Pe byddai hyn yn digwydd, byddai gweithgareddau a |

Tudalen 73

ATODIAD 2

| Maen Prawf | Arsylwadau | **Effaith** Cadarnhaol / Negyddol / Niwtral | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| gynnwys gweithgareddau allgyrsiol | Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn parhau yn Ysgol Llanfechell. Rhagwelir y byddai defnydd cymunedol o Ysgol Llanfechell. Byddai'r awdurdod eisiau weithio gyda'r gymuned yng Ngharreglefn i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn, fel y gellir parhau i'w ddefnyddio fel adeilad cymunedol. | | gwasanaethau a ddarperir o adeilad yr ysgol yn parhau.<br>Byddai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carreglefn ar hyn o bryd yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell. Byddai disgwyl i nifer y gweithgareddau yn Ysgol Llanfechell barhau os nad cynyddu. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol | Gan fod y ddwy ysgol yn ysgolion cymunedol, mae'r gymuned yn gwneud defnydd sylweddol o'r adeiladau a thir yr ysgol. | Niwtral | Trwy gydweithio gyda’r gymuned, gellid sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Pe byddai hyn yn digwydd, byddai gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir o adeilad yr ysgol yn parhau. |
| Effeithiau eraill - Trafnidiaeth | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd cludiant o ddalgylch presennol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â’r polisi cludiant ysgol. Mae'r bwriad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar draffig yn ardal Carreglefn, gan fod nifer y cerbydau sy'n teithio ar y ffyrdd cul sy'n gwasanaethu Ysgol Carreglefn yn debygol o leihau. Disgwylir i ganran y traffig cynyddol drwy Lanfechell fod yn fach iawn. | Niwtral | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd cludiant o ddalgylch presennol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â’r polisi cludiant ysgol. |

| Maen Prawf | Arsylwadau | **Effaith**<br>Cadarnhaol / Negyddol / Niwtral | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | Pe bai'r cynnig yn cael ei awdurdodi, byddai'n golygu pellteroedd teithio hirach i rai disgyblion o Garreglefn. Ar sail y disgyblion ar gofrestr Ysgol Carreglefn (Gorffennaf 2023), byddai 18% (2 ddisgybl) yn teithio llai i Ysgol Llanfechell tra byddai 82% (9 disgybl) yn gorfod teithio ymhellach. Dylid nodi fodd bynnag fod 6 o'r 11 disgybl ym mlynyddoedd 5 neu 6 ar y pryd. Ni fyddai'r disgyblion hyn yn cael eu heffeithio gan y cynnig, gan y byddant yn / wedi trosglwyddo i Addysg Uwchradd cyn y dyddiad yr awgrymir gweithredu'r cynnig. Os na chynhwysir y 6 disgybl hyn, mae 2 (40%) o'r 5 disgybl sy'n weddill yn byw yn agosach i Ysgol Llanfechell, tra bod 3 disgybl (60%) yn byw yn agosach i Ysgol Carreglefn. Noder yn rhai o'r ymatebion yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, y gall y cynnig hefyd effeithio ar allu perthnasau i fynd a plant i / o'r ysgol ar gyfer y disgyblion sydd yn byw o fewn y dalgylch | | |
| Effeithiau eraill ar y Gymuned | Gallai cau Ysgol Carreglefn gael effaith fechan ar atyniad yr ardal leol ar gyfer darpar brynwyr tai, yn enwedig y rhai sydd â neu'n bwriadu cael plant. Fodd bynnag byddai digon o le yn Ysgol Llanfechell i dderbyn disgyblion o Garreglefn. Dim ond 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn yw Ysgol Llanfechell. Gallai hefyd wneud yr ardal yn fwy deniadol i brynwyr tai sy'n chwilio am gymdogaeth dawelach. | Niwtral | Trwy gydweithio gyda'r gymuned, gellid sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Pe bai hyn yn digwydd, fe allai liniaru effaith posib cau Ysgol Carreglefn. |

ATODIAD 2

| Maen Prawf | Arsylwadau | **Effaith**<br>Cadarnhaol /<br>Negyddol /<br>Niwtral | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | Cydnabyddir y gallai fod newid yn nemograffeg yr ardal dros amser. | | |

## 5 CASGLIAD

Aseswyd y cynnig i ddechrau o ran ei effaith bosibl ar y canlynol:

- Cydraddoldeb
- Yr iaith Gymraeg
- Y Gymuned

Mae effaith y cynnig ar bob rhan wedi'i hasesu i ddechrau fel a ganlyn:

| **Effaith gyfunol ar:** | **Effaith Debygol ar y cam cynnig:** |
|---|---|
| Cydraddoldeb | Nid oes unrhyw botensial hysbys ar gyfer gwahaniaethu nac effaith andwyol ar hyn o bryd. |
| Iaith | Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. Bydd awyrgylch Cymraeg fwy naturiol yn Ysgol Llanfechell, oherwydd bod canran uwch o ddisgyblion o deuluoedd iaith gyntaf Cymraeg. |
| Y Gymuned | Ychydig neu ddim effaith canfyddedig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gall rhai agweddau fod yn gadarnhaol e.e. disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell. |

**Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n deillio yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig.**

***6 Gwybodaeth bellach - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol***

***(Dyddiad cychwyn y ddyletswydd: 31 Mawrth 2021)***

**Beth yw'r Ddyletswydd?**

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?**

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion garchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lleoedd** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Croestoriad** – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

**Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?**

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)

- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol.

### *7 Gwybodaeth bellach – Hawliau Dynol*

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, waeth beth yw eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - oll wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, cyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## *8 Gwybodaeth bellach - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Porthladd Rhydd Ynys Môn – Llywodraethiant a Trefniadau Gweithredol***

***Anglesey Freeport – Governance and Operational Arrangements***
**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14, of Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF / THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd i'r cyhoedd o ddatgelu sef:-<br><br>Bydd y cyhoedd â diddordeb i weld sut y mae'r Cyngor a'u partneriaid wedi gweithredu y rhaglen Porthladd Rhydd:<br><br>• Adolygu atebolrwydd a thryloywder<br>• Herio penderfyniadau a wneir<br>• Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid yn y dyfodol<br><br>• Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid yn y dyfodol<br><br>There is a public interest in disclosure as:-<br><br>The public will be interested in how the Council and its partners has implemented the Freeports programme:<br><br>• Review accountability and transparency<br>• Challenge decisions made<br>• Understand and participate in decisions regarding future allocation of funding</td><td>Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw:<br><br>Gallai datgelu rhagfarnu a chael effaith andwyol ar fuddiannau busnes, ariannol a masnachol partner datblygu/ ymgeiswyr a'u prosiectau.<br><br>Gallai datgelu niweidio trafodaethau'r Cyngor gyda phartneriaid/ rhanddeiliaid wrth fwrw ymlaen â gweithgareddau ffrwd gwaith y Porthladd Rhydd.<br><br>The public interest in not disclosing is:-<br><br>Disclosure could adversely impact and prejudice the financial and business affairs and commercial interests of a development partner/ applicants and their projects.<br><br>Disclosure may adversely prejudice the Council's discussions with partners/ stakeholders in progressing the Freeports workstream activities.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br><br>The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank